

# Cynllun Datblygu Lleol Newydd Powys 2022-2037

# Cytundeb Cyflawni

## Wedi'i Diweddaru

## Gorffennaf 2024

# Cynnwys:

**RHAN 1: CYFLWYNIAD** ... 3

**RHAN 2: YR AMSERLEN** ... 7

**RHAN 3: Y CYNLLUN CYNNWYS CYMUNEDAU** ... 11

**ATODIAD 1. RHESTR O GYRFF YMGYNGHORI** ... 31

**ATODIAD 2. YR AMSERLEN FANWL** ... 37

**ATODIAD 3. ASESIAD RISG** ... 44

**ATODIAD 4. CRYNODEB O'R CAM YMGYNGHORI – SYLWADAU A DDERBYNIWYD AC YMATEB Y CYNGOR YNGHYD Â'R NEWIDIADAU O GANLYNIAD** ... 47

**ATODIAD 5. LLYTHYR CYTUNDEB GAN LYWODRAETH CYMRU** ... 56

# Tablau:

**TABL 1 AMSERLEN CDLL NEWYDD POWYS (YN CYNNWYS CWMPAS AR GYFER LLITHRIANT O DRI MIS FEL Y NODIR YN Y LLAWLYFR CYNLLUNIAU DATBLYGU, ARGRAFFIAD 3** ... ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.

**TABL 2 STAFFIO POLISI CYNLLUNIO A'R CDLL NEWYDD** ... 10

**TABL 3 EGWYDDORION AR GYFER YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD CYMRU** ... 23

**TABL 4 CYFNODAU 1-3, CYTUNDEB CYFLAWNI, CASGLU TYSTIOLAETH A CHYFRANOGIAD RHANDDEILIAID, CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORI CYN-ADNEUO** ... 39

**TABL 5 CYFNOD 4, CDLL NEWYDD ADNEUO** ... 40

**TABL 6 CYFNODAU 5-9, CYFLWYNO, ARCHWILIO, ADRODDIAD YR AROLYGWYR, MABWYSIADU AC ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL** ... 41

**TABL 7 RISGIAU I'R BROSES O BARATOI'R CDLL NEWYDD** ... 43

**TABL 8 SYLWADAU AC YMATEB Y CYNGOR I'R YMGYNGHORIAD AR Y CYTUNDEB DARPARU DRAFFT** ... 46

# Ffigurau:

**FFIGUR 1 PROSES Y CDLL, LLAWLYFR CYNLLUNIAU DATBLYGU (ARGRAFFIAD 3)** ... 3

## Rhan 1: Cyflwyniad

1.1 Lluniwyd y Cytundeb Cyflawni (CC) hwn wedi'i diweddaru gan Gyngor Sir Powys ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLl Newydd) sy'n cael ei baratoi ar gyfer cyfnod y cynllun 2022-2037. Yn gyffredin â'r CDLl presennol wedi'i fabwysiadu, bydd y CDLl Newydd yn cynnwys Powys gyfan ac eithrio'r ardal ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog lle mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (APCBB) yn meddu ar awdurdodaeth fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

1.2 Dyma ddwy brif ran y CC:


1) Amserlen o gamau allweddol paratoad y Cynllun; a

2) Cynllun Cynnwys Cymunedau sy'n nodi sut a phryd y bydd y gymuned yn gallu cymryd rhan yn y broses o baratoi'r Cynllun.

1.3 Mae'r CC hefyd yn nodi sut a phryd y bydd y Cyngor yn asesu ac yn arfarnu'r Cynllun trwy gydol y gwaith o'i lunio ac yn ystyried sut mae'r Cyngor yn bwriadu adolygu Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG) presennol a pharatoi SPG newydd ar gyfer y CDLl Newydd.

1.4 Mae'n rhaid i baratoad y CDLl Newydd integreiddio â nifer o themâu a phrosesau asesu cyffredin, gan gynnwys polisi cynllunio cenedlaethol a Chynlluniau Llesiant, fel y dangosir yn Ffigur 1.

**Ffigur 1 Proses y CDLl, Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3)**



## Y Sefyllfa Bresennol a'r Adolygiad o CDLl Powys (2011-2026)

1.5 Y cynllun datblygu statudol presennol ar gyfer y Cyngor yw CDLl Powys (2011-2026) a fabwysiadwyd. Bydd yn parhau i fod yn weithredol tra bod y CDLl Newydd yn cael ei baratoi. Adolygwyd y CDLl a fabwysiadwyd yn 2022 a sefydlodd yr adolygiad y dylai'r CDLl fod yn destun adolygiad llawn. Mae adolygiad llawn yn hytrach na gweithdrefn ffurf gryno symlach (mewn sefyllfaoedd lle nad yw adolygiadau o arwyddocâd digonol) yn golygu bod angen cynllun newydd.

1.6 Er ei fod yn CDLl newydd sbon, mae'r cynllun newydd yn adeiladu ar waith y CDLl presennol a phan fydd, er enghraifft, materion, amcanion, tystiolaeth sylfaenol, polisïau neu gynigion, yn dal i fod yn berthnasol ac yn gyfredol gellid eu cynnwys yn y CDLl Newydd yn amodol ar ailasesiad trylwyr.

## Gweithdrefnau Cyfranogiad a Chymeradwyo ar gyfer y CC Drafft

1.7 Cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, gwnaeth y Cyngor gynnwys nifer o'r Cyrff Ymgynghori Penodol (Gweler y Cynllun Cynnwys Cymunedau ac Atodiad 1) fel y nodir gan y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol)(Cymru) 2005 fel y'i diwygiwyd gan y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol)(Cymru)(Diwygiad) 2015 ("Rheoliadau'r CDLl"). Mae'r rhain yn cynnwys pob Cyngor Tref a Chymuned yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) Powys a chyfagos (gan gynnwys y rhai yn ardal APCBB Powys). Gofynnwyd i'r ACLlau cyfagos hefyd i fod yn rhan o'r broses.

1.8 Anfonwyd drafft cynnar i Swyddogion Cyngor Sir Powys hefyd ar gyfer sylwadau, gan gynnwys cydweithwyr yn yr adrannau Rheoli Datblygiad, Priffyrdd, Iechyd yr Amgylchedd, Cyfreithiol, Cyfathrebu a Llesiant Corfforaethol. Darparwyd y drafft i Lywodraeth Cymru ac i Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) (yr Arolygiaeth Gynllunio gynt).

1.9 Yn eu cyfarfod ar 13 Rhagfyr 2021, cymeradwyodd Gweithgor y Cynllun Datblygu Lleol y CC Drafft at ddibenion ymgynghori cyhoeddus. Yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus, cafodd yr holl Gyrff Ymgynghori, ynghyd a'r gymuned ehangach, y cyfle i roi eu sylwadau (Cam 1 yn yr Amserlen)

1.10 Cynhaliodd y Cyngor Ymgynghoriad Cyhoeddus rhwng 6 Ionawr 2022 a 1 Chwefror 2022. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad wedi'u cynnwys yn Atodiad 4.

## Cytuno'r CC

1.11 Ar ôl ymgynghori ar y CC drafft ac i'r Cyngor ystyried unrhyw sylwadau a dderbyniwyd a gwneud newidiadau i'r Amserlen a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau yn ôl yr angen, mae'n rhaid i'r CC terfynol gael ei gymeradwyo gan benderfyniad Cyngor Sir Powys a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a chael ei gytuno ganddi i alluogi cychwyn ffurfiol y broses CDLl Newydd. Ystyriwyd y CC diwygiedig gan Weithgor CDLl y y Cyngor a'r Cabinet ym mis Chwefror 2022 ac yna cafodd ei gymerdwyo gan benderfyniad y Cyngor Llawn mewn cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2022. O ganlyniad i'r llithriad yn yr amserlen ers dechrau'r gwaith o baratoi'r cynllun yn 2022, mae wedi bod yn angenrheidiol, o Fehefin 2024, i ddiweddaru'r Cytundeb Cyflawni a'i ailgyflwyno drwy'r broses cymeradwyo.

1.12 Cydymffurfiad â'r CC wedi'i gymeradwyo yw un o'r profion o Gadernid y bydd yr Arolygydd yn eu hasesu yn y cyfnod Archwilio.

### Y Profion o Gadernid

1.13 Ni all ACLl Powys gyflwyno'r CDLl Newydd i Lywodraeth Cymru ei archwilio tan y bydd o'r farn bod y cynllun yn barod i gael ei archwilio. Mae hyn yn golygu na ddylid cyflwyno cynlluniau 'ansicr' i gael eu harchwilio. Bydd angen i ACLl Powys ddangos bod y cynllun yn bodloni'r tri phrawf o gadernid a nodir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu:

- Prawf 1: A yw'r cynllun yn ffitio? (A yw'n eglur bod y CDLl yn gyson a chynlluniau eraill? Mae hyn yn cynnwys cysondeb â'r Cytundeb Cyflawni.)
- Prawf 2: A yw'r cynllun yn briodol? (A yw'r cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)
- Prawf 3: A fydd y cynllun yn cyflawni? (A yw'n debygol o fod yn effeithiol?)

## Asesu/Arfarnu'r Cynllun

1.14 Ar gyfer y CDLl Newydd, mae'n rhaid i'r Cyngor roi ystyriaeth i sefydlu'r Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) sylfaenol ar gyfer y cynllun newydd (mae AC yn cynnwys gofynion Asesiad Amgylcheddol Strategol/AAS) ac ailystyried dilysrwydd y fframwaith AC a fabwysiadwyd. Mae hyn yn golygu y bydd y fframwaith AC ar gyfer y CDLl presennol yn cael ei ddiweddaru ar gyfer y CDLl Newydd.

1.15 Dyma'r camau gofynnol yn y broses AAS y mae'n rhaid eu hymgorffori:

- pennu'r cyd-destun ac amcanion, gan sefydlu'r llinell sylfaen a phenderfynu ar y cwmpas
- datblygu a mireinio opsiynau amgen ac asesu effeithiau
- paratoi'r adroddiad amgylcheddol
- ymgynghori ar y cynllun neu'r rhaglen ddrafft a'r adroddiad amgylcheddol
- monitro effeithiau sylweddol gweithredu'r cynllun neu'r rhaglen ar yr amgylchedd

1.16 Mae canllawiau cenedlaethol yn dynodi bellach y gallai Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) fod yn briodol, sy'n cynnwys ystyriaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Effeithiau Iechyd, y Gymraeg ac Effeithiau Cydraddoldeb (gan gynnwys Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010). Ymgynghorwyd ar yr Adroddiad Cwmpasu ar gyfer yr AC/ACI yng Nghyfnod 2 (gweler yr Amserlen).

1.17 Pan fydd Fframwaith Asesu'r AC/ACI wedi cael ei gwmpasu a'i sefydlu, mae'n cael ei ddefnyddio yn yr arfarniad o bolisïau a chynigion arfaethedig y CDLl Newydd**.** Bydd adroddiadau yn cael eu cyhoeddi i ategu prif gyfnodau'r CDLl Newydd a chofnodi'r asesiad ailadroddol a phroses paratoi'r cynllun yr ymgymerwyd â nhw hyd at yr adeg honno. Mae'r AC/ACI hefyd yn rhan annatod o'r Asesiad Safle Ymgeisiol.

1.18 Bydd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) yn dal i fod ar wahân. Mae HRA yn hysbysu paratoad strategaeth, polisïau a dyraniadau tir y CDLl Newydd trwy nodi eu potensial i effeithio ar gynefinoedd amgylcheddol sydd wedi'u dynodi yn genedlaethol h.y., Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a safleoedd Ramsar. Pan fyddai gan gynllun defnydd tir y potensial i effeithio ar safle yn sylweddol, mae angen Asesiad Priodol manwl i asesu'r effeithiau ac i ystyried addasrwydd opsiynau a mesurau lliniaru.

## Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG)

1.19 Bydd y CDLl Newydd yn cynnwys polisïau digonol i ddarparu'r sail ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio. Fodd bynnag, mae gan y SPG swyddogaeth ategol bwysig o ran darparu canllawiau mwy manwl neu benodol i safleoedd ar y ffordd y bydd polisïau CDLl Newydd yn cael eu cymhwyso. Er nad yw'r SPG yn rhan o Gynllun Datblygu, dylent ddeillio o'r CDLl perthnasol a bod yn gyson ag ef. Dylai'r SPG hefyd gael eu croesgyfeirio yn eglur i'r polisïau a'r cynigion y maent yn eu hatodi. Mae'r Cyngor yn dilyn protocol y cytunwyd arno wrth baratoi SPG ac ar gyfer y CDLl presennol mae wedi mabwysiadu SPG ar gyfer y pynciau canlynol:

Tai Fforddiadwy; Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth; Ynni Adnewyddadwy; Tirwedd; Rhwymedigaethau Cynllunio; Ardaloedd Cadwraeth; Dylunio Preswyl; Archaeoleg; Amgylchedd Hanesyddol; Cynllun Bro y Drenewydd a Llanllwchaearn.

1.20 Bydd yr angen i adolygu'r SPG presennol a pharatoi SPG newydd yn cael ei ystyried yn rhan o'r broses o baratoi'r CDLl Newydd. Bydd y cyfnod Cyn-adneuo (Cyfnodau 2 a 3) yn adeg allweddol pan fydd unrhyw SPG newydd sydd eu hangen yn cael eu nodi. Bydd rhanddeiliaid perthnasol yn cael eu hymgynghori wrth lunio SPG yn unol â Phrotocol y cytunwyd arno.

1.21 Pan fydd SPG yn cynorthwyo'r ddealltwriaeth o'r CDLl Newydd, byddant yn cael eu paratoi ac yn destun ymgynghoriad fel rhan annatod o'r broses o ymgysylltu o fewn fframwaith y CC. Bydd adroddiad ymgynghori ac ymgysylltu yn cael ei lunio ar gyfer yr holl SPG ac yn cael ei wneud ar gael gyda'r canllawiau cymeradwy.

## Rhan 2: Yr Amserlen

2.1 Mae'r amserlen gryno isod, a ddiweddarwyd ym mis Mehefin 2024, yn dangos prif gyfnodau paratoi CDLl Newydd a'r dyddiadau allweddol. Rhoddir manylion mwy llawn ar yr amserlen yn Atodiad 2.

### Tabl 1 Amserlen Gryno CDLl Newydd Powys

**a) Camau Diffiniol – Cyfnodau diffiniol pan fydd yr ymgynghoriadau'n cael eu cynnal**

| Rhif y Cyfnod | Enw'r Cyfnod | Cyfnod wedi'i gwblhau rhwng: | Cyfnodau Ymgynghori Allweddol |
|---|---|---|---|
| 1 | **Cytundeb Cyflawni** | Tachwedd 2021 tan Fehefin 2022 | Ymgynghoriad cyhoeddus ar y CC Drafft; Ionawr tan Chwefror 2022<br><br>Cymeradwyaeth drwy brosesau Pwyllgorau:<br>Mawrth 2022<br><br>Cyflwyno i Lywodraeth Cymru<br>1 Mehefin 2022 |
| 2 | **Cyfranogiad Cyn-Adneuo** | Gorffennaf 2022 tan Orffennaf 2025 (Cyfnodau 2 a 3 wedi'u cyfuno) | Gwaith yn dechrau ar Baratoi'r Cynllu Newydd<br>1 Gorffennaf 2022<br><br>Galwad Cyhoeddus ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol: cynhelir am o leiaf chwe wythnos o Hydref 2022 |
| 3 | **Ymgynghoriad Cyn-Adneuo** | Gorffennaf 2022 tan Orffennaf 2025 (Cyfnodau 2 a 3 wedi'u cyfuno) | Ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Cyn-Adneuo (y Strategaeth a Ffefrir):<br>Awst i Hydref 2024 |
| | | | O'r ymgynghoriad i ddiwedd Gorffennaf 2025 bydd y Cyngor yn paratoi'r Cynllun Adneuo. |
| 4 | **Y Cynllun Adneuo** | Awst 2025 i Awst 2026 | Yn caniatau 2 mis ar gyfer gweithdrefnau mewnol yn arwain at ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Adneuo:<br>Hydref tan Dachwedd 2024 |
| | | | O'r ymgynghoriad tan ddiwedd Awst 2026 bydd y Cyngor yn paratoi ar gyfer Cyflwyno'r Cynllun i Lywodraeth Cymru. |

### Tabl 1 (parhad)  Amserlen Gryno CDLl Newydd Powys

**b) Camau Dangosol – mae'r cyfnodau amser hyn yn ddangosol yn unig a caiff eu cadarnhau yn hwyrach yn y broses.**

| Rhif y Cyfnod | Enw'r Cyfnod | Cyfnod wedi'i gwblhau rhwng: | Cyfnodau Ymgynghori Allweddol |
|---|---|---|---|
| 5 | **Cyflwyno** | Dyddiad Targed: Medi 2026 | Ddim yn berthnasol |
| 6 | **Archwilio** | Proses 11 mis o'i Gyflwyno | Ymgynghorir ar newidadau ar ôl adneuo yn unol â Rhaglen yr Arolygydd |
| 7 | **Adroddiad yr Arolygydd** | Awst 2027 | Ddim yn berthnasol |
| 8 | **Mabwysiadu** | Medi 2027 (Mabwysiadu o fewn 8 wythnos o dderbyn yr Adroddiad) | Ddim yn berthnasol |
| 9 | **Monitro ac Adolygu** | Ol-mabwysiadu parhaus | Adroddiadau Monitro Blynyddol bob blwyddyn yn mis Hydref a'r Adolygiad o'r Cynllun heb fod yn hwyrach na 4 blynedd o'r dyddiad mabwysiadu. |

*Sylwer mai amserlen gryno yw hon, mae'r amserlen lawn yn Atodiad 2 yn cynnwys holl amserlennu'r Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) neu'r Adroddiad Asesiad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) cysylltiedig – gan ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol – ac amserlennu'r Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol.

## Y Cyfnodau Cyn-adneuo a Rhoi Mwy o Bwyslais ar y Camau Rhagarweiniol

2.2 Mae Cyngor Sir Powys wedi ymrwymo i sicrhau ansawdd uchel o gyfranogiad rhanddeiliaid a chymunedol wrth lunio cynlluniau. Mae'r Cynllun Cynnwys Cymunedau a nodir yn Rhan 3 yn esbonio'r cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad cynnar a pharhaus cymunedau a ddylai helpu i fynd i'r afael a materion dadleuol, cynorthwyo i ddatrys anghydfod a chaniatáu i bartïon ddod o hyd i dir cyffredin a chyrraedd nodau cyffredin.

2.3 Mae Polisi Cynllunio Cymru a chanllawiau yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn eglur bod yn rhaid i'r Cyngor gynnwys pwyslais sylweddol ar y camau rhagarweiniol wrth baratoi CDLl Newydd. Mae hyn yn golygu cael tystiolaeth fanwl ymlaen llaw ac yn gynnar yn y broses o lunio'r cynllun i hysbysu darpariaeth y strategaeth a ffefrir a chyfnodau dilynol y cynllun.

Bydd rhoi mwy o bwyslais ar y camau rhagarweiniol yn cynnig strategaeth a ffefrir sy'n ddigon manwl i ganiatáu cyfnod ymgynghori ystyrlon (Cyfnod 3) a fydd yn dylanwadu wedyn ar gynnwys y Cynllun Adneuo.

**I gyflawni'r dasg hon, mae'n golygu bod nifer o faterion pwysig yn cael eu tystiolaethu, eu hystyried a'u darpar-benderfynu ymlaen llaw a chyn ymgynghoriad y Strategaeth a Ffefrir/Cyn-adneuo yng Nghyfnod 3.  Mae'r oedi yn y gwaith o baratoi'r cynllun ers y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol (Mehefin 2022) yn bennaf oherwydd y**

**gwaith estynedig o gasglu tystiolaeth, gan arwain at Gytundeb Cyflawni diwygiedig (Mehefin 2024) ac amserlen wedi'i diweddaru.**

2.4 Ar gyfer y CDLl Newydd, disgwylir i'r strategaeth a ffefrir nodi:

- y lleoedd allweddol a maint y newid;
- safleoedd sy'n allweddol i ddarpariaeth y cynllun (sylwer, ar Fehefin 2024, nid oes unrhyw safleoedd allweddol o'r fath wedi'u cael eu dynodi);
- gofynion seilwaith; a
- dangos gweithrediad a darpariaeth.

2.5 Mae wedi bod hyd yn oed yn fwy hanfodol nag mewn Cynlluniau blaenorol felly bod rhanddeiliaid yn ymgysylltu â'r Cyngor yn gynnar yn y broses o lunio'r Cynllun ac ymgysylltu yn ystod rhan gynnar Cyfnod 2 mewn gwaith tystiolaeth ac unrhyw ymarferion ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn y broses safleoedd ymgeisiol gyda thystiolaeth o fanylder priodol i ddylanwadu ar gynnwys y strategaeth a ffefrir. Bydd angen archwilio unrhyw rwystrau i ddatblygiad ymlaen llaw os yw safleoedd yn mynd i gael siawns realistig o gael eu cynnwys yn y CDLl Newydd a fabwysiadir. Bydd angen i'r Cyngor nodi safleoedd allweddol ac ardaloedd twf i'w cynnwys yn y cyfnod strategaeth a ffefrir tra bydd safleoedd posibl eraill yn parhau i gael eu gwerthuso yn ystod Cyfnod 3/Cyfnod 4. Mae'r prawf ar gyfer dyraniad yn y Cynllun yn parhau - mae'n rhaid profi bod Safleoedd yn addas, ar gael a bod modd eu cyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun.

2.6 Yng Nghyfnod 3, bydd y Cyngor yn llunio papurau tystiolaeth/cyhoeddi astudiaethau perthnasol i gefnogi'r strategaeth a ffefrir ac yn esbonio a chyfiawnhau'r dull a fabwysiadwyd. Mae'n bwysig bod y cynllun a'r dystiolaeth yn cael eu hysbysu gan safbwyntiau rhanddeiliaid. Mae'r Cyngor yn croesawu cyfranogiad pawb sydd â diddordeb mewn llunio dyfodol datblygiad cynaliadwy Powys. Mae'r Cynllun Cynnwys Cymunedau yn darparu fframwaith cyson gan ganiatáu i wneuthurwyr cynlluniau i ni gyrraedd y cyfranogwyr iawn.

## Ffactorau a Ystyriwyd yn yr Amserlen

2.7 Mae'r Amserlen wedi ei hysgogi yn sylfaenol gan yr angen i gael Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn barod i arwain y broses o wneud penderfyniadau pan ddaw'r CDLl (2022-2026) i ben. Serch hynny, mae'n rhaid iddo fod yn realistig ac wrth lunio'r Amserlen mae'r Cyngor wedi dilyn cyngor y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu ac wedi cymryd y canlynol i ystyriaeth:

- Aelodau yn Gwneud Penderfyniadau
- Amseru rhwng Cyfnodau Statudol
- Adnoddau a Chyllidebau Staff
- y Canllawiau Gweithdrefnol a gyhoeddwyd gan PCAC.

### Adnoddau a Chyllidebau Staff

2.8 Bydd tîm Polisi Cynllunio'r Cyngor yn arwain y gwaith o lunio a rheoli proses y CDLl Newydd, gan gynnwys paratoi unrhyw ddogfennau ymgynghori.

2.9 Gofynnir i Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu/Tîm Cyfathrebu'r Cyngor gynorthwyo yn y cyfnodau cyfranogiad ac ymgynghori a bydd arbenigedd gwahanol swyddogion y Cyngor yn cael ei geisio fel sy'n berthnasol yn y cyfnodau paratoi (e.e. gan yr adrannau

priffyrdd, diogelu'r amgylchedd, cyfreithiol, ecoleg, draenio cynaliadwy, dadansoddeg fusnes ac ymchwil ac ati).

2.10 Mae Tabl 2 yn dangos amser swyddogion Polisi Cynllunio a fydd yn cael ei neilltuo i lunio'r CDLl Newydd (gan gynnwys amser sydd wedi ei neilltuo i fonitro'r CDLl mabwysiedig presennol yn barhaus).

### Tabl 2 Staffio Polisi Cynllunio a'r CDLl Newydd

| Teitl y Swyddog | Nifer y Staff | % yr Amser a Neilltuir i Waith CDLl |
|---|---|---|
| Arweinydd Proffesiynol – Cynllunio | 1 | 20 |
| Prif Swyddog – Polisi Cynllunio | 1 | 100 |
| Uwch Swyddog – Polisi Cynllunio | 2.6 | 100 |
| Cynllunydd | 2 | 100 |

2.11 Bydd y Cyngor yn comisiynu ymgynghorwyr arbenigol i weithio ar amrywiaeth o faterion pwnc a thasgau casglu tystiolaeth yn ystod y gwaith o baratoi'r CDLl Newydd ac mae cyllid ychwanegol yn amodol ar gymeradwyaeth gan Gyngor Sir Powys yn rhan o'i waith pennu cyllidebau blynyddol.

2.12 Bydd hefyd yn angenrheidiol galw ar adnoddau staff o adrannau mewnol eraill i gynorthwyo i gyflawni gwahanol ddiweddariadau/asesiadau sylfaenol dystiolaeth. Mae hyn yn debygol o gynnwys cymorth swyddogion o'r adrannau Tai, Rheoli Datblygiad, Priffyrdd/Seilwaith, Addysg, Gwasanaethau Democrataidd a Gwasanaethau Cyfreithiol.

2.13 Paratowyd y CC ar sail CDLl Newydd Powys yn unig. Fodd bynnag, mae gwaith yn parhau ar sail ranbarthol a bydd cydweithrediad â Chyngor Sir Ceredigion ac APCBB fel awdurdodau cyfagos yn parhau i fod yn hollbwysig i'r gwaith o baratoi'r CDLl Newydd, yn enwedig o ran sylfaen dystiolaeth ar y cyd, pan fo'n briodol.

## Rheoli Risg

2.14 Ar ôl ystyried y mewnbwn adnoddau i broses y CDLl Newydd, roedd y Cyngor o'r farn bod yr amserlen wreiddiol (Mehefin 2022), yn realistig a bod modd ei bodloni. Fodd bynnag, ers hynny bu'n rhaid diwygio'r amserlen oherwydd ffactorau a ddynodwyd fel meysydd risg penodol a allai arwain at rywfaint o wyro o'r amserlen arfaethedig (gweler Atodiad 3). Ystyrir llithriant yn yr amserlen dros 3 mis yn wyriad sylweddol ac mae wedi arwain at Gytundeb Cyflawni diwygiedig (Mehefin 2024).

## Rhan 3: Y Cynllun Cynnwys Cymunedau

3.1 Un o'r canlyniadau allweddol i'r system CDLl yw i'r Cynllun:

**Fod yn seiliedig ar gyfranogiad cymunedol cynnar, effeithiol ac ystyrlon er mwyn deall ac ystyried amrywiaeth eang o safbwyntiau, gyda'r nod o greu consensws eang ar y strategaeth ofodol, polisïau a chynigion. (Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Argraffiad 3).**

3.2 I bennu'r fframwaith ar gyfer hyn, mae'r rhan hon o'r CC yn rhoi manylion y Cynllun Cynnwys Cymunedau gan esbonio pwy, sut a phryd y gall rhanddeiliaid a'r gymuned gymryd rhan yn y gwaith o lunio'r CDLl Newydd. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r Cynllun Cynnwys Cymunedau sydd hefyd yn brawf o Gadernid. (gweler para 1.13)

3.3 Mae'r tabl isod yn nodi manylion cynllun cynnwys CDLl Newydd y Cyngor ar gyfer pob un o gyfnodau'r Amserlen yn esbonio pwy fydd yn cymryd rhan, sut y byddant yn cymryd rhan, pryd y byddant yn cymryd rhan, sut y bydd safbwyntiau yn cael eu cymryd i ystyriaeth a sut y bydd adborth yn cael ei roi. Mae'r Cynllun Cynnwys Cymunedau yn gyfle i weithio ar y Cyd a Chynnwys Pobl, sef dwy o'r ffyrdd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n berthnasol i gyrff cyhoeddus.

**3.4 Mae'r Tabl Cynnwys y Gymuned canlynol yn nodi beth mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud yn sylfaenol wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd Powys (CDLl Newydd). Pan fydd amser ac adnoddau yn caniatáu hynny, bydd y Cyngor yn ymdrechu i ddarparu cyfleoedd ymgysylltu ychwanegol.**

- Cynnwys y Gymuned ar Gam 1 Cytundeb Cyflenwi (DA), Rheoliadau 5-10 (Cam Diffiniol):

| PAM?<br>Crynodeb o'r prif gamau | PRYD?<br>Amserlen Fras | PWY?<br>Pwy fydd yn rhan | SUT?<br>Dulliau Ymgysylltu | CLYWED NÔL<br>Dulliau adrodd | SA / SEA / ISA |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mae'r DA yn offeryn rheoli prosiect a fydd yn arwain at amserlen y cytunir arni a chynllun Cynnwys y Gymuned ar gyfer y CDLl Newydd (2022-20237).**<br><br>**Caiff y DA ei ddrafftio gyda chyfraniadau gan randdeiliaid targed ac yna'i gyflwyno ar gyfer Ymgynghoriad Cyhoeddus.**<br><br>**Bydd y DA Terfynol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn dilyn cymeradwyaeth y Cyngor.**<br><br>**Llywodraeth Cymru i gytuno â'r DA – gan olygu bydd y CDLl Newydd yn dechrau'n ffurfiol yn unol â'r Amserlen.** | Drafftio: mis Tachwedd hyd fis Rhagfyr 2021<br><br>O leiaf tair wythnos (anstatudol) o Ymgynghoriad Cyhoeddus Mis Ionawr hyd fis Chwefror 2022<br><br>Cyngor i gymeradwyo'r DA ym mis Mawrth 2022<br><br>Cyflwyno'r DA i Lywodraeth Cymru (LlC)<br><br>LlC i ymateb o fewn pedair wythnos<br><br>Gwaith paratoi'r CDLl Newydd i ddechrau'n ffurfiol Gorffennaf 2022 | Drafftio:<br>• Rhanddeiliaid targed<br>• Adrannau mewnol y Cyngor<br>• Cynghorwyr<br>• Gweithgor CDLl<br>Ymgynghoriad Cyhoeddus:<br>• Holl randdeiliaid<br><br>Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru i gael yr wybodaeth ddiweddaraf<br><br>Cynghorwyr Sir<br><br>Llywodraeth Cymru | Drafftio:<br>• E-bost<br>• Adrodd/cyflwyno i'r Gweithgor CDLl<br><br>Ymgynghoriad Cyhoeddus: wedi'i hysbysebu drwy:<br>• E-bost<br>• Gwefan<br>• Y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol<br>Bydd y Dogfennau Ymgynghori a'r ffurflenni Sylwadau ar gael:<br>• Ar y wefan<br>• Yn Neuadd y Sir, Llandrindod a'r 12 Llyfrgell<br><br>Bydd y DA Terfynol ar gael ar y wefan ac yn Neuadd y Sir, Llandrindod. | Bydd Agendau a Chofnodion cyfarfodydd y Cyngor yn cofnodi'r broses wleidyddol.<br><br>Bydd unrhyw sylwadau yn cael eu hystyried, bydd y DA yn cael ei ddiwygio os oes angen a bydd sylwadau/ newidiadau yn cael eu cofnodi yn y DA Terfynol. | Gwaith mewnol ar ddiweddaru/ ail-werthuso fframwaith yr SA/SEA a ddefnyddiwyd fel llinell sylfaen ar gyfer y CDLl (2011-26)<br><br>Bydd y Cyngor yn ystyried mabwysiadu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ISA) unigol cyfannol i ymdrin â materion cynaliadwyedd, amgylcheddol, iechyd, lles, cydraddoldeb a'r Gymraeg |

- Cynnwys y Gymuned ar Gam 2 Cyfranogiad Cyn-Adneuo, Rheoliad 14 (Cam Diffiniol)

| PAM?<br>Crynodeb o'r prif gamau | PRYD?<br>Amserlen Fras | PWY?<br>Pwy fydd yn rhan | SUT?<br>Dulliau Ymgysylltu | CLYWED NÔL<br>Dulliau adrodd | SA / SEA / ISA |
|---|---|---|---|---|---|
| **Deall y cyd-destun a'r materion i ymdrin â nhw yn y CDLl Newydd a llunio gweledigaeth ac amcanion.**<br><br>**Adolygu a diweddaru tystiolaeth bresennol.**<br><br>**Galw am Safleoedd Ymgeisio.**<br><br>**Ymgysylltu ag ymgyngoreion i ddatblygu consensws ar y weledigaeth, materion ac amcanion.**<br><br>**Cael cymeradwyaeth y Cyngor ar y Strategaeth Ddrafft a Ffefrir i'w gyflwyno i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus.**<br><br>**Paratoi ymgynghoriad statudol ar Adroddiad Cwmpasu Sylfaen yr Arfarniad Cynaliadwyedd (SA)/ Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA).** | O fis Gorffennaf 2022<br><br>Bydd yr Alwad am Safleoedd ar agor am o leiaf chwe wythnos o dymor yr hydref 2022<br><br>Bydd y cam hwn yn cynnwys ymgynghoriad statudol pum wythnos ar Adroddiad Cwmpasu Sylfaen yr SA/ SEA | Ymgysylltu â rhanddeiliaid targed i lunio strategaethau ac opsiynau eraill ar gyfer y CDLl Newydd<br><br>Bydd yr Alwad am Safleoedd Ymgeisio yn gam cyhoeddus ar gyfer yr holl randdeiliaid<br><br>Ymgynghori â Chyrff Ymgynghori Amgylcheddol ar Adroddiad Cwmpasu Sylfaen yr SA/SEA (ISA)<br><br>Gweithgor CDLl<br><br>Cyngor i gymeradwyo'r ddogfen ar gyfer Ymgynghoriad Cyhoeddus | Ymgysylltu â rhanddeiliaid targed drwy:<br>• E-bost<br>• Digwyddiadau rhithwir<br>• Cyfarfodydd un i un o bosib<br><br>Bydd yr Alwad am Safleoedd Ymgeisio yn cael eu hysbysebu:<br>• Ar y wefan<br>• Drwy e-byst<br>• Yn y wasg/ cyfryngau cymdeithasol<br><br>Bydd y Cyngor yn cyhoeddi Canllawiau i Ymgeiswyr a Dull Asesu Safleoedd Ymgeisio i egluro'r broses o ddadansoddi a dewis y safle arfaethedig. | Bydd Dogfennau Tystiolaeth Gefndir yn cael eu cyhoeddi ar y wefan wrth iddyn nhw fod ar gael<br><br>Bydd y Cyngor yn llunio Cofrestr o Safleoedd Ymgeisio<br><br>Bydd Agendau a Chofnodion cyfarfodydd y Cyngor yn cofnodi'r broses wleidyddol | Ymgynghoriad statudol ar yr Adroddiad Cwmpasu<br><br>Ystyr cwmpasu yw egluro'r cyd-destun, pennu'r llinell sylfaen a phenderfynu ar gwmpas ac amcanion yr SA<br><br>Bydd yr Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd (HRA) yn parhau i fod ar wahân i asesiadau eraill |

- **Cynnwys y Gymuned ar Gam 3 Ymgynghoriad Cyhoeddus Cyn-Adneuo, Rheoliad 15 y CDLl Newydd (Cam Diffiniol)**

| PAM?<br><br>Crynodeb o'r prif gamau | PRYD?<br><br>Amserlen Fras | PWY?<br><br>Pwy fydd yn rhan | SUT?<br><br>Dulliau Ymgysylltu | CLYWED NÔL<br><br>Dulliau adrodd | SA / SEA / ISA |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ymgynghori'n eang gan ddarparu cyfle i roi sylwadau ar:**<br><br>• **Strategaeth a ffefrir yr ACLl, opsiynau a chynigion ynghyd â dewisiadau amgen.**<br><br>**Cyhoeddi'r gofrestr o safleoedd ymgeisio.**<br><br>**Cyhoeddi dogfennau ategol (tystiolaeth).** | I'w gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2025<br><br>Ymgynghoriad cyhoeddus statudol chwe wythnos ar y Strategaeth a Ffefrir o fis Awst hyd fis Hydref 2024 | Ymgynghoriad cyhoeddus â'r holl randdeiliaid | Ymgynghoriad Cyhoeddus: wedi'i hysbysebu:<br>• Drwy e-bost<br>• Ar y wefan<br>• Yn y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol<br><br>Bydd y Dogfennau Ymgynghori a'r ffurflenni Sylwadau ar gael:<br>• Ar y wefan<br>• Yn Neuadd y Sir, Llandrindod a'r 12 Llyfrgell<br><br>Bydd yr Ymgynghoriad yn darparu dull o gyflwyno Sylwadau yn electronig ar system we ryngweithiol<br><br>Bydd y Cyngor yn darparu hysbysiad a datganiad o faterion cyn-adneuo ar y cam hwn yn unol â'r Rheoliadau<br><br>Yn ystod y cyfnod Ymgynghori, bydd y Cyngor yn trefnu ac yn hysbysebu Digwyddiadau at ddibenion ymgynghori | Bydd sylwadau ac ymatebion y Cyngor iddynt yn cael eu hadrodd i'r Gweithgor CDLl.<br><br>Bydd sylwadau ac ymatebion y Cyngor, ynghyd ag unrhyw newidiadau i'r Cynllun Cyn-Adneuo sy'n deillio o'r sylwadau, ar gael yn gyhoeddus yn rhan o'r Adroddiad Ymgynghori (Cam 4)<br><br>Bydd Agendau a Chofnodion cyfarfodydd y Cyngor yn cofnodi'r broses wleidyddol | Bydd y Cyngor yn dilyn arfer gorau ac yn ymgynghori ar SA/SEA (ISA) cynigion a dewisiadau amgen ynghyd â'r Strategaeth a Ffefrir |

Ar ôl i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus Cyn-Adneuo ddod i ben, mae'r Cyngor wedi neilltuo cyfnod o naw mis hyd at fis Gorffennaf 2025 i baratoi'r Cynllun Adnau (gweler yr Amserlen) a lwfans ar gyfer amser ychwanegol ar gyfer gweithdrefnau/cytundeb mewnol.

- **Cynnwys y Gymuned ar Gam 4 Adneuo Cynigion, Rheoliad 17 (Cam Diffiniol)**

| **PAM?**<br><br>**Crynodeb o'r prif gamau** | **PRYD?**<br><br>**Amserlen Fras** | **PWY?**<br><br>**Pwy fydd yn rhan** | **SUT?**<br><br>**Dulliau Ymgysylltu** | **CLYWED NÔL**<br><br>**Dulliau adrodd** | **SA / SEA / ISA** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cael cymeradwyaeth y Cyngor ar Gynllun Adnau Drafft i fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.**<br><br>**Ymgynghori'n eang gan ddarparu cyfle i gael sylwadau ar:**<br>• **Y CDLl Adnau**<br>• **Adroddiad yr SEA/SA (ISA)**<br><br>**Cyhoeddi dogfennau ategol (tystiolaeth).**<br><br>**Cyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol.** | I'w gwblhau erbyn mis Awst 2026<br><br>Ymgynghoriad cyhoeddus statudol chwe wythnos ar y Cynllun Adnau (gan gynnwys ymgynghoriad ar yr Adroddiad Amgylcheddol). (Hydref i Dachwedd 2025) | Y Cyngor i gymeradwyo'r ddogfen ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus<br><br>Ymgynghoriad cyhoeddus â'r holl randdeiliaid | Ymgynghoriad Cyhoeddus: wedi'i hysbysebu:<br>• Drwy e-bost<br>• Ar y wefan<br>• Yn y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol<br><br>Bydd y Dogfennau Ymgynghori a'r ffurflenni Sylwadau ar gael:<br>• Ar y wefan<br>• Yn Neuadd y Sir, Llandrindod a'r 12 Llyfrgell<br><br>Bydd yr Ymgynghoriad yn darparu dull o gyflwyno Sylwadau yn electronig ar system we ryngweithiol.<br><br>Bydd y Cyngor yn darparu hysbysiad a datganiad o faterion Adnau ar y cam hwn yn unol â'r Rheoliadau. | Bydd Agendau a Chofnodion cyfarfodydd y Cyngor yn cofnodi'r broses wleidyddol<br><br>Bydd y Cyngor yn cofnodi'r holl sylwadau a wneir yn briodol ac yn sicrhau bod copïau ohonynt ar gael i'w harchwilio yn Neuadd y Sir, Llandrindod<br><br>Bydd y wefan yn rhoi manylion y sylwadau a gafwyd<br><br>Diweddaru'r Gofrestr o Safleoedd Ymgeisio i gynnwys sylwadau safleoedd Newydd/ Amgen<br><br>Bydd sylwadau ac ymatebion y Cyngor yn cael eu hychwanegu at yr Adroddiad Ymgynghori | Ymgynghori ar ddogfennau'r SA / SEA (ISA) ochr yn ochr â'r CDLl Adnau am yr un cyfnod |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bydd y Cyngor yn ystyried yr angen am ddigwyddiadau ymgynghori | (bydd yr adroddiad diwygiedig ar gael yng Ngham 5) | |

Ar ôl i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y Cynllun Adnau ddod i ben, mae'r Cyngor wedi neilltuo cyfnod o naw mis hyd at Awst 2026 i baratoi'r Cyflwyniad (gweler yr Amserlen). Bydd hyn yn cynnwys adrodd parhaus i Weithgor y CDLl.

- **Cynnwys y Gymuned ar Gam 5 Cyflwyno'r CDLl a dogfennau cysylltiedig a gofynnol eraill i Lywodraeth Cymru a Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru i'w Harchwilio'n Annibynnol, Rheoliad 22 (Cam Dangosol)**

| PAM?<br>Crynodeb o'r prif gamau | PRYD?<br>Amserlen Fras | PWY?<br>Pwy fydd yn rhan | SUT?<br>Dulliau Ymgysylltu | CLYWED NÔL<br>Dulliau adrodd | SA / SEA / ISA |
|---|---|---|---|---|---|
| **Bydd y Cyngor yn cyflwyno'i CDLl i Lywodraeth Cymru a Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) i'w Harchwilio'n Annibynnol.**<br><br>**Bydd y dogfennau i'w cyflwyno yn cynnwys:**<br>• **Cynllun Adnau**<br>• **SA/SEA (ISA), HRA**<br>• **Cynllun Cynnwys y Gymuned / DA**<br>• **Adroddiad ymgynghori**<br>• **Adroddiad adolygu**<br>• **Cofrestr o safleoedd ymgeisio**<br>• **Copi o'r sylwadau a wnaed yn briodol a gafwyd wrth adneuo**<br>• **Dogfennau ategol/ tystiolaeth**<br><br>**Yr holl randdeiliaid i gael gwybod bod y CDLl wedi'i gyflwyno.** | Medi 2026 | Yr holl randdeiliaid (gan gynnwys y rhai sy'n cyflwyno sylwadau) i gael gwybod | • Gwefan<br>• E-bost<br><br>Bydd copïau'n cael eu hanfon at Lywodraeth Cymru a PEDW i'w Harchwilio'n Annibynnol fel y rhagnodir yn y Rheoliadau<br><br>Bydd y Cyngor yn cyhoeddi datganiad ar ei wefan fod y CDLl wedi'i gyflwyno i'w archwilio ac y bydd yn sicrhau bod yr archwiliad ar gael i'w arolygu yn ystod oriau swyddfa arferol Neuadd y Sir, Llandrindod<br><br>Bydd y CDLl Newydd a'r holl ddogfennau a gyflwynwyd yn cael eu cyhoeddi ar-lein | Bydd y Cyngor yn cyhoeddi gohebiaeth gan yr Arolygydd.<br><br>Bydd Swyddog y Rhaglen yn sefydlu Gwefan Archwilio | Cyflwynir adroddiad yr SA / SEA (ISA) gan ddangos sut y mae'r prosesau arfarnu wedi llywio cynnwys y Cynllun |

- **Cynnwys y Gymuned ar Gam 6 Archwilio, Rheoliad 23 (Cam Dangosol)**

| PAM?<br>Crynodeb o'r prif gamau | PRYD?<br>Amserlen Fras | PWY?<br>Pwy fydd yn rhan | SUT?<br>Dulliau Ymgysylltu | CLYWED NÔL<br>Dulliau adrodd | SA / SEA / ISA |
|---|---|---|---|---|---|
| **Hysbysiad o Archwiliad Annibynnol.**<br><br>**Rhoi gwybod am ble a phryd bydd y Gwrandawiad cyntaf a phwy sydd wedi'i benodi i gynnal yr Archwiliad (h.y. enw'r Arolygydd).**<br><br>**Cyhoeddi manylion Sesiynau'r Gwrandawiad a rhoi gwybod i bawb sydd â buddiant gan nodi dyddiadau a lleoliad.**<br><br>**Ceisio tir cyffredin â gwrthwynebwyr i roi pwyslais i sesiynau'r gwrandawiad.**<br><br>**Paratoi Newidiadau i'r Materion sy'n Codi fel y bo'n briodol.** | Cael rhybudd o leiaf chwe wythnos cyn dechrau Gwrandawiad cyntaf yr Archwiliad Annibynnol<br><br>Amcangyfrif o Gychwyn y Gwrandawiadau mis Rhagfyr hyd fis Ionawr 2027 | Pawb sydd â buddiant (gan gynnwys y rhai sydd wedi rhoi sylwadau) fel y bo'n berthnasol i sesiynau penodol y gwrandawiad<br><br>Newidiadau i'r Materion sy'n Codi: Yr holl randdeiliaid | Archwiliad Cyhoeddus fel y rheolir gan yr Arolygydd a Swyddog y Rhaglen<br><br>Mae'r archwiliad ar agor i unrhyw aelod o'r cyhoedd ei fynychu<br><br>Bydd Llyfrgell yr Archwiliad ar gael i'w arolygu mewn lleoliad (lleoliad i'w gadarnhau)<br><br>Trafodaethau Bord Gron/ gwrandawiadau/ gwrandawiadau ffurfiol fel y rhagnodir gan yr Arolygydd a'u cyhoeddi drwy:<br>• Wefan yr Archwiliad<br><br>Bydd Agendau, Datganiadau a Chamau Gweithredu yr holl Wrandawiadau yn cael eu cyhoeddi ar y wefan<br><br>Ymgynghoriad cyhoeddus ar unrhyw Newidiadau i'r Materion sy'n Codi: wedi'i hysbyseb:<br>• Drwy e-bost<br>• Ar y wefan<br>• Yn y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol | Bydd Swyddog y Rhaglen y Cyngor yn rheoli gwefan yr Archwiliad a fydd yn rhoi gwybod i bawb am hynt yr Archwiliad<br><br>Bydd y Cyngor yn ymgynghori â rhanddeiliaid a'r cyhoedd ar unrhyw newidiadau ôl-adneuo arfaethedig (Newidiadau i'r Materion sy'n Codi) yn unol â chyfarwyddiadau'r Arolygydd<br><br>Bydd penderfyniadau yn dilyn yn ddiweddarach yn Adroddiad yr Arolygydd | Gall sylwadau a wnaed yn briodol yn ymwneud â'r SA/SEA (ISA) ymddangos yn yr archwiliad<br><br>Bydd unrhyw newidiadau a wneir ôl-adneuo (Newidiadau i'r Materion sy'n Codi) yn ystod archwiliad neu'r rhai y mae'r Arolygydd yn gofyn amdanynt) yn destun asesiad ac ar gael i ymgynghori arnynt |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ymgynghori ar y Newidiadau i'r Materion sy'n Codi.** | | | Bydd y Dogfennau Ymgynghori a'r ffurflenni Sylwadau ar gael:<br>• Ar y wefan<br>• Yn Neuadd y Sir, Llandrindod a'r 12 Llyfrgell | | |

- **Cynnwys y Gymuned ar Gam 7 Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd, Rheoliad 24 (Cam Dangosol)**

| PAM?<br>Crynodeb o'r prif gamau | PRYD?<br>Amserlen Fras | PWY?<br>Pwy fydd yn rhan | SUT?<br>Dulliau Ymgysylltu | CLYWED NÔL<br>Dulliau adrodd | SA / SEA / ISA |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Cyngor i gael Adroddiad yr Arolygydd yn nodi canlyniad yr Archwiliad Annibynnol.**<br><br>**Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd ar ôl ei gael (o fewn cyfnod rhagnodedig o 8 wythnos).**<br><br>**Pan fydd yr Arolygydd yn argymell newidiadau i'r CDLl Newydd, mae rhwymedigaeth ar y Cyngor i wneud y newidiadau hyn ac mae'n rhaid diweddaru'r CDLl Newydd i ystyried yr argymhellion.**<br><br>**Rhoi gwybod i bawb sydd â buddiant bod Adroddiad yr Arolygydd wedi dod i law ac wedi'i gyhoeddi.** | Disgwylir i'r Adroddiad ddod i law erbyn mis Awst 2027<br><br>Mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi hwn wrth fabwysiadu'r CDLl neu cyn hynny | Yr holl randdeiliaid (gan gynnwys y rhai sy'n cyflwyno sylwadau) i gael gwybod. | Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd ar y wefan a sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'w arolygu yn Neuadd y Sir, Llandrindod. | Bydd adroddiad yr Arolygydd yn cynnwys argymhellion yr Arolygydd a'r rheswm drostynt | |

- **Cynnwys y Gymuned ar Gam 8 Mabwysiadu, Rheoliad 25 (Cam Dangosol)**

| PAM?<br>Crynodeb o'r prif gamau | PRYD?<br>Amserlen Fras | PWY?<br>Pwy fydd yn rhan | SUT?<br>Dulliau Ymgysylltu | CLYWED NÔL<br>Dulliau adrodd | SA / SEA / ISA |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dilyn gweithdrefnau i fabwysiadu'r CDLl Newydd (2022-2037) yn ffurfiol ac i hysbysebu'n eang y ffaith ei fod wedi'i fabwysiadu.** | Ei fabwysiadu o fewn 8 wythnos i gael Adroddiad yr Arolygydd<br><br>Nod y Cyngor yw mabwysiadu'r CDLl Newydd erbyn Medi 2027.<br><br>Mae'r Datganiad Ôl-fabwysiadu (o dan Gyfarwyddeb y SEA) yn ofynnol o fewn 3 mis i'r mabwysiadu | Y Cyngor fydd yn penderfynu ar fabwysiadu'r Cynllun<br><br>Yr holl randdeiliaid i gael gwybod | Hysbysebu drwy'r sianeli canlynol:<br>• E-bost<br>• Gwefan<br>• Y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol<br><br>Bydd y Cynllun a fabwysiadwyd ar gael cyn gynted ag y bo'n ymarferol i'w arolygu yn Neuadd y Sir, Llandrindod, ynghyd â datganiad mabwysiadu ac adroddiad arfarnu cynaliadwyedd. | Bydd Agendau a Chofnodion cyfarfodydd y Cyngor yn cofnodi'r broses wleidyddol<br><br>Bydd y CDLl Newydd terfynol yn cael ei gyhoeddi ar y wefan | Ar ôl ei Fabwysiadu, cyhoeddi arfarniadau ac asesiadau cyflawn a chynigion ar gyfer monitro'r cynllun o'i gymharu â'r amcanion.<br><br>Gwybodaeth i fod ar gael i'r Cyrff Ymgynghori ac i'r cyhoedd |

## Ble i Weld Dogfennau

3.5 Er y bydd dogfennau CDLl bob amser ar gael ar wefan y Cyngor, bydd y Cyngor, yn unol a'r Rheoliadau CDLl, yn sicrhau bod yr holl ddogfennau perthnasol ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio yn ei brif swyddfa:

Neuadd Sir Powysl
Spa Road East
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

Bydd dogfennau ar gael yn ystod oriau swyddfa arferol.

Hefyd, yn ystod y camau ymgynghori bydd y Cyngor yn rhoi copi o'r dogfennau ymgynghori mewn llyfrgelloedd lleol i'w harchwilio gan y cyhoedd. Y 12 lleoliad llyfrgell gyhoeddus at y diben hwn yw: Aberhonddu, Llanfair-ym-Muallt, Llandrindod, Llanfyllin, Llanidloes, Llanwrtyd, Machynlleth, Y Drenewydd, Llanandras, Rhaeadr Gwy, y Trallwng ac Ystradgynlais.

## Ymuno â'r Rhestr Bostio

3.6 Os hoffech i'ch enw fod ar y gronfa ddata/rhestr bostio a reolir gan Bolisi Cynllunio at ddibenion y Cynllun Datblygu Lleol newydd, anfonwch e-bost ati: ldp@powys.gov.uk.

3.7 Mae natur y Cynllun Cynnwys Cymunedau yn helpu i sicrhau bod y ddeg egwyddor genedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd (Tabl 3) yn cael eu cydblethu ym mhroses y Cynllun Datblygu. Diffiniad Ymgysylltu yw: Proses weithredol a chyfranogol lle gall pobl ddylanwadu a llunio polisïau a gwasanaethau sy'n cynnwys ystod eang o ddulliau a thechnegau gwahanol.

**Tabl 3 Egwyddorion ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd Cymru**

| Rhif | Egwyddor Genedlaethol |
|---|---|
| **1.** | Mae'r ymgysylltu wedi'i ddylunio yn effeithiol i wneud gwahaniaeth |
| **2.** | Annog a galluogi pawb sy'n cael eu heffeithio i gymryd rhan, os byddant yn dewis gwneud hynny |
| **3.** | Mae'r ymgysylltu wedi'i gynllunio a'i ddarparu mewn ffordd brydlon a phriodol |
| **4.** | Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol |
| **5.** | Bydd yr wybodaeth a ddarperir yn rhydd o jargon, yn briodol ac yn ddealladwy |
| **6.** | Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan |
| **7.** | Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol |
| **8.** | Rhoddir yr adnoddau a'r cymorth priodol i ymgysylltu fod yn effeithiol |
| **9.** | Hysbysir pobl am effaith eu cyfraniad |
| **10.** | Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses o ymgysylltu |

3.8 Mae Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd 2023-27 y Cyngor wedi cytuno ar yr egwyddorion cenedlaethol ac egwyddorion Gunning (sy'n cael eu haralleirio isod):

1. Peidiwch ag ymgynghori os ydych eisoes wedi penderfynu.

2. Rhowch wybodaeth ddigonol i ymgyngoreion er mwyn iddynt allu rhoi 'ystyriaeth ddeallus' i'ch cynigion.

3. Caniatewch ddigon o amser ar gyfer yr ymarfer.

4. Gofalwch y rhoddir 'ystyriaeth gydwybodol' i'r ymatebion ymgynghori.

3.9 Wrth ddatblygu'r CC ac yn ystod cyfnod cyfranogiad dilynol y Cynllun bydd y tîm Polisi Cynllunio yn cael ei lywio gan gyngor gan Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Cyngor.

## Gweithio Tuag at Gymru Fwy Cynaliadwy – Y Nodau Llesiant Cenedlaethol a'r Dulliau o Weithio

3.10 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (y Ddeddf), bydd y Cyngor yn gweithredu'r 'Pum Dull o Weithio'. Mae hyn yn sicrhau bod y Cyngor yn gweithio mewn modd sy'n bodloni'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Dyma'r Pum Dull o Weithio:

- **Hirdymor –** Cymryd i ystyriaeth sut y gallai'r hyn yr ydym yn ei wneud nawr effeithio ar gymunedau a gwasanaethau yn y dyfodol.
- **Atal –** Gweithredu i atal problemau rhag codi neu waethygu.
- **Integreiddio –** Ystyried sut mae'r amcanion llesiant yn cyfrannu at bob un o'r nodau llesiant, yn effeithio ar amcanion eraill, neu ar rai cyrff cyhoeddus eraill.
- **Cydweithio –** Gweithio gydag eraill i fodloni'r amcanion llesiant.
- **Cynnwys -** Cynnwys pobl yn y gwaith o fodloni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth cymunedau lleol.

3.11 Mae'r Cynllun Cynnwys Cymunedau yn cael ei lunio i adlewyrchu sut y bydd y Cyngor yn llunio'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd drwy Cydweithrediad a Chynhwysiant

3.12 Trwy'r Ddeddf, mae'r Cyngor yn cyfrannu at yr amcan llesiant cenedlaethol o ddatblygu a gweithio cynaliadwy, ochr yn ochr â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, at y diben cyffredin o fodloni'r saith nod llesiant cenedlaethol o Gymru Lewyrchus, Gydnerth, Iachach, sy'n Fwy Cyfartal, o Gymunedau Cydlynus, â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu ac sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang. Bydd angen i waith Cynllun Datblygu'r Cyngor ar draws Powys ddangos sut mae'n cyfrannu at y saith nod.

### Y Cynllun Llesiant Lleol

3.13 Diben datblygu cynaliadwy yw gwella'r ffordd y gallwn sicrhau ein llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, a diwylliannol gyda phob un o'r pedair agwedd mor bwysig â'i gilydd. I sicrhau gwell llesiant ym Mhowys, mae'r Cyngor yn chwarae rhan ganolog wrth gynhyrchu Cynllun Llesiant Powys, cynllun partneriaeth a wnaed gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powyssy'n cynnwys:  Cyngor Sir Powys, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Gwasanaeth Tan ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.  Mae cynlluniau llesiant lleol yn un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae gan Gynllun Llesiant Powys (Mehefin 2023) weledigaeth o Bowys Teg, Cynaliadwy ac Iach a thri amcan datganedig:

- Bydd pobl ym Mhowys yn byw bywydau hapus, iach, a diogel
- Mae Powys yn sir o fannau a chymunedau cynaliadwy
- Gwasanaeth Cyhoeddus gynyddol effeithiol i bobl Powys

Mae'r Cynllun yn nodi tri cham/blaenoriaeth llesiant sy'n rhyng-gysylltiedig ac a fydd yn cyfrannu at gyflawni'r tri amcan llesiant :

- Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd
- Dull systemau cyfan at bwysau iach.
- Llunio'r dyfodol drwy wella ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig i bobl Powys trwy dystiolaeth a dealltwriaeth.

3.14 Bydd gwaith Cynllun Datblygu'r Cyngor yn cael ei gydgysylltu i gyfrannu at y pedwar amcan lleol allweddol hyn y nodwyd eu bod yn ganolog i hybu llesiant ym Mhowys.

## Pwy Fydd yn Cymryd Rhan?

3.15 Mae'r Rheoliadau CDLl yn nodi rhai categorïau o ymgynghorai ac yn pennu pryd y mae'n rhaid cynnwys y cyrff hyn. Mae'n arferol i'r Cyngor ymgysylltu yn ehangach na'r gofynion sylfaenol.  Mae'r categorïau'n cynnwys adrannau  Penodol, Cyffredinol a'r Llywodraeth ac mae'r Cyngor wedi ychwanegu Cyrff Ymgynghori Eraill (gweler paragraff 3.18 ymlaen) a nodir yn Atodiad 1.  Yn y tablau Cynllun Cynnwys y Gymuned yn adran 3.4 uchod, nodwch fod y Cyngor wedi grwpio'r rhain gyda'i gilydd lle rydym yn ymrwymo i ymgysylltu â "phob rhanddeiliad".  Mae'r rhain yn cynnwys, ar lefel lleol, Cynghorau Tref a Chymuned fel Ymgyngoreion Penodol ynghyd ag Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos.

### Cronfa Ddata'r CDLl

3.16 Bydd y Cyngor yn rheoli cronfa ddata CDLl at ddibenion hysbysu ac ymgynghori/postio gyda'r holl gyrff ymgynghori, unigolion a sefydliadau eraill a chwmnïau lleol. Mae'r Cyngor yn disgwyl cysylltu â rhan fwyaf o'r rhai a fydd yn cael negeseuon trwy gyfathrebu e-bost fel sydd wedi dod yn arferol.

3.17 Bydd y Cyngor yn rheoli cronfa ddata'r CDLl yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Ar gyfer y CDLl Newydd, bydd yn ofynnol i gysylltiadau presennol (o gronfa ddata bresennol CDLl 2011-2026) roi eu cydsyniad yn ysgrifenedig os byddant yn dymuno cael eu hychwanegu at gronfa ddata'r CDLl Newydd. Os hoffech i'ch manylion gael eu hychwanegu at gronfa ddata'r CDLl Newydd, anfonwch e-bost i ldp@powys.gov.uk.

### Y Cyrff Ymgynghori

3.18 Mae'r Rheoliadau CDLl yn grwpio ymgyngoreion i gategorïau Cyrff Ymgynghori Penodol, Cyrff Ymgynghori Cyffredinol ac Adrannau Llywodraeth.

3.19 Mae'n ofynnol i Gyrff Ymgynghori Penodol a Chyffredinol (fel y'u diffinnir yn y Rheoliadau CDLl) gael eu cynnwys ar wahanol gyfnodau o'r Cynllun. Mae'n rhaid ymgynghori ag Adrannau Llywodraeth hefyd lle mae'n ymddangos bod agweddau ar y Cynllun yn effeithio ar eu buddiannau. Mae Cyngor Sir Powys wedi nodi'r grwpiau hyn a'u rhestru yn Atodiad 1.

3.20 Mae'r broses Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) / ACI yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â chyrff ymgynghori amgylcheddol. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1 hefyd.

3.21 Gallai'r Cyngor hefyd gynnwys yn ôl ei ddisgresiwn y fath bobl y mae'n ymddangos i'r Awdurdod bod ganddynt fuddiant mewn materion yn ymwneud â datblygiad yn yr ardal. Mae'r rhain wedi cael eu nodi a'u grwpio fel 'Cyrff Ymgynghori Eraill' ac fe'u rhestrir yn Atodiad 1. Ymhlith yr ymgyngoreion hyn y mae nifer o asiantaethau a sefydliadau eraill y mae'r Cyngor o'r farn sydd â buddiant perthnasol yn ardal CDLl Powys, y mae llawer ohonynt wedi cymryd rhan neu wedi bod â buddiant mewn gwaith cynllun datblygu blaenorol, ac sydd wedi cael eu gwahodd i gymryd rhan neu sydd wedi gwneud cais i gymryd rhan yn y CDLl. Er nad ydynt wedi'u rhestru, mae'r gronfa ddata hefyd yn cadw nifer o enwau eraill (e.e. cwmniau lleol, tirfeddiannwyr, unigolion) sydd wedi gwneud cais i'w cynnwys yn y gwaith o baratoi'r CDLl.

3.22 Gall unrhyw un sy'n dymuno sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys yn ymgynghoriad y CDLl Newydd wneud cais i gael ei gynnwys ar y rhestr bostio a'r cronfa ddata trwy gysylltu â ldp@powys.gov.uk neu gofrestru drwy'r wefan.

### Defnyddio Rhwydweithiau a Grwpiau Presennol

3.23 Bydd y Cyngor yn gallu defnyddio grwpiau ACLl presennol (e.e. grŵp Rhanddeiliaid Tai CDLl, Fforwm Cynllunio ac Asiantau) i gyfathrebu i bobl sut i gymryd rhan ym mhroses y Cynllun a hefyd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i grwpiau perthnasol eraill ar draws y Cyngor, fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys sy'n cyfarfod at ddiben y Cynllun Llesiant Lleol a rhanddeiliaid sy'n cymryd rhan mewn gwaith Datganiad Ardal (cynllun haen uwch a arweinir gan Cyfoeth Naturiol Cymru).

### Rhanddeiliaid CDLl

3.24 Rhanddeiliaid yw'r rhai y mae eu buddiannau yn cael eu heffeithio yn uniongyrchol gan y CDLl. Gall unrhyw un â diddordeb mewn creu lleoedd a datblygu cynaliadwy ym Mhowys yn y dyfodol gael ei ystyried yn rhanddeiliad felly. Mae cyfranogiad rhanddeiliaid yn aml yn digwydd trwy gyrff cynrychioliadol.

3.25 Rhanddeiliaid yw pawb sy'n cael eu cynnwys yn yr adran cyrff ymgynghori uchod. Caiff yr enwau hyn eu rheoli trwy gronfa ddata/rhestr bostio'r CDLl (gan gydymffurfio â GDPR).

3.26 Cydnabyddir ei bod yn fwy effeithiol ymgysylltu ag ystod wedi'i dargedu o randdeiliaid ar adegau yn ystod proses y cynllun datblygu. I gadw cyfranogiad yn ystyrlon ac yn rhwydd ei reoli, bydd digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael eu targedu at y cyrff/cynrychiolwyr mwyaf perthnasol yn dibynnu ar y pwnc dan sylw. Mae'r dull hwn wedi gweithio yn llwyddiannus ar gyfer y CDLl presennol ac fe'i defnyddiwyd, er enghraifft, wrth baratoi Canllawiau Cynllunio Atodol.

## Yr Hyn yr Ydym yn ei Ddisgwyl gan ein Rhanddeiliaid

3.27 Er mwyn sicrhau bod unrhyw sylwadau ar y CDLl Newydd yn cael eu hystyried, mae'n rhaid iddynt gael eu cyflwyno yn unol â'r amserlenni rhagnodedig. Mae'r Cytundeb Cyflawni yn cyflwyno'r amserlen o gyfnodau perthnasol ac yn cynnig canllaw ar bryd y byddwn yn gofyn i chi gymryd rhan. Bydd hyn yn sicrhau bod safbwyntiau unigol yn cael eu cymryd i ystyriaeth trwy gydol y broses baratoi.

3.28 Dylai rhanddeiliaid godi materion dilys y gall y CDLl Newydd a'r system gynllunio fynd i'r afael â nhw.

3.29 Efallai y bydd yn angenrheidiol i gyrff amrywio eu cylchoedd cyfarfod i ganiatáu ymatebion prydlon. Sylwer nad oes gan y Cyngor yr hyblygrwydd yn y cyfnodau statudol i newid y cyfnod ymgynghori o'r hyn a ragnodir yn y Rheoliadau/a nodir yn y Cynllun Cynnwys Cymunedau.

3.30 Dylai cyrff ymgynghori dynnu sylw at unrhyw fylchau yn y sylfaen dystiolaeth neu wybodaeth a ddarparwyd a cheisio llenwi'r bylchau mewn ymgynghoriad â'r Cyngor i alluogi proses gadarn o wneud penderfyniadau.

3.31 Dylid tynnu sylw'r Cyngor at safleoedd i'w hystyried i gael eu cynnwys yn y Cynllun newydd yn ystod y cyfnod cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol. Dylai fod tystiolaeth dda yn gysylltiedig â'r Safleoedd i ddangos y gellir eu darparu ar ôl mabwysiadu'r Cynllun o fewn cyfnod y Cynllun (hynny yw heb fod yn hwyrach na 2037) gyda dogfennau ategol yn unol â chanllawiau wedi'u cyhoeddi yn y Dull Asesu Safleoedd Ymgeisiol/y Pecyn Ymgeisio i Safleoedd Ymgeisiol.

3.32 Hysbyswch yr Adran Polisi Cynllunio (ldp@powys.gov.uk) os bydd eich manylion cyswllt yn newid yn ystod cyfnod paratoi'r CDLl Newydd er mwyn i ni roi'r wybodaeth lawn i chi am gynnydd. O ran Safleoedd Ymgeisiol, nodir y gallai newidiadau i berchnogaeth tir hefyd ddigwydd yn ystod y broses (ac felly hefyd yr Asiant Tir neu'r Ymgynghorydd Cynllunio sydd wedi'i benodi) ac mae'n hanfodol bod y Cyngor yn cael ei hysbysu am y rhain er mwyn sicrhau nad yw cynnydd yn cael ei oedi.

## Yr Hyn y Gall Rhanddeiliaid ei Ddisgwyl gan y Cyngor

3.33 Mae'r Cyngor yn dymuno sicrhau bod proses y cynllun newydd yn cynnwys cyfranogiad cymunedol ystyrlon, agored ac adeiladol o'r cychwyn cyntaf a bydd yn gwneud

popeth yn ei allu i gydymffurfio â’r CC cyhoeddedig a gwneud yn siŵr bod yr holl wybodaeth yn cael ei chyhoeddi ac ar gael yn brydlon.

3.34 Bydd y Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i hysbysu am gynnydd y CDLl Newydd i sicrhau bod rhanddeiliaid a’r gymuned yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd. Bydd rhanddeiliaid yn cael eu hysbysu pan fydd adborth ar gael ac, mewn achosion pan nad yw ymatebion unigol yn cael eu hanfon ymlaen yn uniongyrchol, y dull adrodd i weld adborth.

3.35 Cyflwynodd y Cyngor system ymgynghori ryngweithiol newydd ar y we o fis Ebrill 2022 ar gyfer cyfnodau ymgysylltu ar y CDLl Newydd.

3.36 Bydd y Cyngor yn gwneud popeth yn ei allu i gydymffurfio a’r ymrwymiadau a nodir yn y CC hwn ond os bydd tarfu pellach oherwydd pandemig Covid 19 neu ffactorau eraill y tu allan i’n rheolaeth, efallai y bydd angen bod yn hyblyg ac addasu i’r amgylchiadau ar y pryd.

## Ein Dull o Adeiladu ConsenswS

3.37 Bydd y Cyngor yn ceisio adeiladu consensws trwy wahanol ddulliau ymgysylltu ac ymgynghori a nodir yn y Cynllun Cynnwys Cymunedau. Gellir adeiladu consensws dim ond os bydd y gymuned a phartïon eraill a buddiant yn cael eu hysbysu yn llawn a’u hymgysylltu yn effeithiol drwy gydol y gwaith o baratoi’r CDLl newydd, a fydd o bwysigrwydd arbennig yng nghyfnodau cynnar paratoi’r cynllun.

3.38 Serch hynny, cydnabyddir y bydd adegau pan na ellir sicrhau consensws ac y bydd anghytuno rhwng partïon penodol. Bydd trywydd archwilio eglur yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod tryloywder yn y broses o wneud penderfyniadau, ac, i roi sicrwydd i’r rhai sy’n anghytuno bod y penderfyniadau wedi cael eu gwneud mewn ffordd hysbys a chytbwys. Fodd bynnag, ni fydd penderfyniadau a wneir yn cael eu hailystyried trwy gyfleoedd ymgynghori dilynol, felly gofynnir i gyfranogwyr ganolbwyntio eu mewnbwn ar y mater sy’n cael ei ystyried ar yr adeg honno.

## Grwpiau Anodd eu Cyrraedd (Nas Clywir yn Aml) a’r rhai â Nodweddion Gwarchodedig

3.39 Esboniodd y CC ar gyfer y CDLl presennol (2011-2026) sut nododd y Cyngor nifer o grwpiau anodd eu cyrraedd (neu nas clywir yn aml) ym Mhowys a sut byddai’r cymunedau hyn yn cael eu cyrraedd trwy sefydliadau a gwasanaethau ambarél i geisio cynnwys aelodau’r gymuned na fyddent fel rheol yn cymryd rhan yn y gwaith o baratoi cynllun datblygu, gan gynnwys y grwpiau hynny sydd wedi eu tangynrychioli yn draddodiadol.

3.40 Ar gyfer y cynllun newydd, bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio’r cyrff cyswllt sefydledig, fel rhwydwaith presennol Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO), y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, unrhyw swyddogion arbenigol yng Nghyngor Sir Powys (e.e. swyddogion Tai ar gyfer Ffoaduriaid, swyddog cyswllt y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr, a’r rhai sy’n ymdrin âa Llety Pobl Hŷn ac ati).

3.41 Bydd y tîm Polisi Cynllunio yn gweithio gyda'r Swyddog Cymunedol ac Ymgysylltu yn ystod y camau ymgynghori i ymchwilio i bwy yw'r cynulleidfaoedd nas clywir yn aml ac i dargedu'r rhai sy'n gymwys drwy gyfathrebu drwy sefydliadau fel PAVO, Cynghorau Tref a Chymuned a grwpiau hunan-eiriolaeth Pobl yn Gyntaf Powys. Mae'n bosibl y bydd grwpiau perthnasol hefyd wedi'u nodi yn y diffiniad o Gyrff Ymgynghori Cyffredinol (gweler Atodiad 1). Mae'r grwpiau nas clywir yn aml ym Mhowys yn cynnwys:

- Cymuned Sipsiwn a Theithwyr
- Henoed (Dros 80 oed)
- Gofalwyr Di-dâl
- Ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- Cymuned y Gurkhas
- Grwpiau anabledd, e.e. Fforwm Anabledd Dysgu, Anabledd Corfforol a Fforwm Colli Synhwyraidd
- Cymuned Dwyrain Ewrop

Yn yr un modd, bydd grwpiau â Nodweddion Gwarchodedig yn cael eu cynnwys yn unol â Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd y Cyngor.

3.42 Bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio'r rhwydwaith PAVO gwerthfawr ym Mhowys i ymgysylltu â'r trydydd sector. Ar eu gwefan, mae PAVO yn esbonio:

"PAVO yw Cyngor Gwirfoddol Sirol Powys sy'n cefnogi'r trydydd sector ym Mhowys (trydydd sector yw'r term ar gyfer amrediad o sefydliadau, gan gynnwys sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, elusennau cofrestredig a chymdeithasau, grwpiau hunangymorth a grwpiau cymunedol, mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydfuddiannol a chydweithfeydd.)"

3.43 Mae'r Cyngor yn ymwybodol y bydd gan wahanol grwpiau anodd eu cyrraedd wahanol rwystrau i gael mynediad at broses y CDLl ac ymgysylltu â hi. Mae dyfodiad yr oes ddigidol wedi cynyddu mynediad at ddogfennau ac wedi cynnig cwmpas enfawr i bobl wneud sylwadau ar-lein. Yn yr un modd, mae'r Cyngor yn ymwybodol na fydd cyfathrebu digidol yn briodol i bob parti. Dylid addasu ymgysylltiad, er enghraifft gallai posteri a fersiynau hawdd eu darllen o ddogfennau fod yn addas i blant ysgol, neu efallai na fydd gan blant hŷn neu'r rhai sy'n byw mewn lleoliadau anghysbell fynediad rhwydd at y rhyngrwyd.

### Plant a Phobl Ifanc

3.44 Mae Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd y Cyngor 2023-27 yn cydnabod bod pobl ifanc yn grŵp pwysig i ymgysylltu â hwy ac mae'n nodi sianeli i'w cyrraedd fel ysgolion, sefydliadau ieuenctid a Hwylusydd Llais Pobl Ifanc ar gyfer Gwasanaethau Plant.

3.45 Mae gan y Clybiau Ffermwyr Ifanc lleol fforymau ieuenctid y mae Cyngor Sir Powys yn gallu eu defnyddio hefyd. Bydd y Tîm Cynllunio Polisi yn cynnwys y Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn y gwaith o gyrraedd pobl ifanc i'w cynnwys nhw yn y camau o baratoi'r cynllun a allai fod y mwyaf o ddiddordeb a pherthnasedd iddyn nhw.

## Swyddogaethau yn y Broses

### Swyddogaeth Cynghorau Tref a Chymuned

3.46 Mae gan Gynghorau Tref a Chymuned Powys ran bwysig i'w chwarae yn y gwaith o baratoi'r CDLl Newydd. Mae Cynghorau Tref a Chymuned mewn ardaloedd yn Awdurdod Cynllunio Lleol Powys neu'n gyfagos yng nghategori'r Cyrff Ymgynghori Penodol.

3.47 Mae creu lleoedd wedi dod yn fwyfwy amlwg fel thema ganolog paratoi cynllun datblygu ac mae'r Cyngor yn cydnabod bod cyfranogiad cymunedau lleol yn cael ei strwythuro yn ddelfrydol drwy'r rhwydwaith Cynghorau Tref a Chymuned ac yn rhan hanfodol o waith creu lleoedd llwyddiannus.

3.48 Bydd y Cyngor yn parhau i gynnwys Un Llais Cymru (sefydliad blaenllaw sy'n cynrychioli ac yn cynorthwyo llawer o Gynghorau Tref a Chymuned). Bydd ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i ddefnyddio Cymorth Cynllunio Cymru i helpu i hwyluso ymgysylltiad cymunedol.

### Swyddogaeth Cynghorwyr Sir a Swyddogion y Cyngor

3.49 Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau priodol swyddogion proffesiynol a Chynghorwyr Sir (Aelodau) etholedig yn y broses o baratoi'r Cynllun yn benodol. Cyflogir Swyddogion proffesiynol (fel cynllunwyr, peirianwyr priffordd ac ati) gan y Cyngor i ddarparu gwaith ymchwil a dadansoddi a chyngor technegol diduedd i Gynghorwyr ar yr holl faterion cynllun datblygu perthnasol yn eu meysydd arbenigedd. Mae Swyddogion proffesiynol yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau ond ni fyddant, oni bai y rhoddir pwerau wedi'u dirprwyo iddynt, yn gwneud penderfyniadau ar ran y Cyngor. Cynghorwyr Sir, fel cynrychiolwyr sydd wedi'u hethol yn ddemocrataidd, sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar ran yr etholaeth y maent yn atebol iddi.

3.50 Bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio Gweithgor Cynllun Datblygu Lleol sy'n cynnwys Swyddogion Cyngor perthnasol a Chynghorwyr Sir etholedig i oruchwylio pob agwedd ar broses y cynllun newydd, o ddrafft ymgynghori cychwynnol y Cytundeb Cyflawni hwn yr holl ffordd i fabwysiadu ac adolygu'r Cynllun. Fodd bynnag, bydd angen i benderfyniadau ffurfiol gael eu gwneud gan Gabinet y Cyngor a Chyngor Sir Powys ar adegau allweddol.

3.51 Bydd cyfranogiad gyda'r holl Gynghorwyr Sir yn digwydd ar adegau pwysig yn y broses gan gynnwys: trafodaeth ar y weledigaeth, nodau ac amcanion ar gyfer y cynllun; i ystyried y strategaeth a ffefrir; ac i drafod materion penodol i safleoedd ac aneddiadau. Bydd gan Gynghorwyr ran bwysig i'w chwarae hefyd o ran gweithredu fel "hyrwyddwyr" lleol, gan gynnwys y gymuned a hwyluso'r broses o baratoi'r Cynllun. Bydd cyfranogiad Cynghorwyr Sir yn cael ei lywio gan gyngor y Pwyllgor Safonau a'r Cod Ymddygiad Aelodau er mwyn peidio â rhagfarnu'r Cynghorwyr yn eu swyddogaeth gwneud penderfyniadau.

3.52 Mae'n ddefnyddiol nodi nad yw'r Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedau Tacsis a Hawliau Tramwy yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau am faterion CDLl.

## Ystyriaeth o Gydweithio

3.53 Dylai'r Cytundeb Cyflawni (CC) gyfleu yn eglur o'r cychwyn sut y gall ACLl ddangos bod cymaint o gydweithio â phosibl (prawf o Gadernid).

3.54 Mae gweithio ar y cyd yn cynnwys ystyriaeth o weithio ar y lefel ranbarthol. Mae'r system Gynllunio ledled Cymru yn dod yn system cynllun datblygu tair haen yn cynnwys cynlluniau datblygu lefelau cenedlaethol, rhanbarthol (strategol) a lleol. Ers mis Chwefror 2021, bu gan Gymru gynllun datblygu cenedlaethol o'r enw Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040. Mae'n dylanwadu ar bob lefel o'r system gynllunio yng Nghymru a bydd yn helpu i lunio Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol sy'n cael eu paratoi gan Gynghorau ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Mae'r fframwaith a ddarperir gan Cymru'r Dyfodol yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer datblygiad yng Nghymru am 20 mlynedd â strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, sicrhau datgarboneiddio a'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a llesiant ein cymunedau.

3.55 Mae Powys yn rhan o Ranbarth Canolbarth Cymru. Ar hyn o bryd, nid oes Cytundeb Cyflawni ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol (SDP) (Cynllun datblygu rhanbarthol) ar gyfer y Canolbarth yn ei le. Mae hyn yn golygu bod gwaith y Cyngor ar y CDLl Newydd ar y lefel leol ar wahanol drywydd i un y SDP newydd ar gyfer y Canolbarth. Mae'n rhaid i waith ar y CDLl Newydd barhau i sicrhau nad yw ardal y Cynllun yn cael ei gadael heb gynllun datblygu statudol a fyddai'n tan-seilio'r system sy'n cael ei arwain gan y cynllun. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai fod cyfleoedd defnyddiol i archwilio a gwneud gwaith ar y cyd yn enwedig o ran casglu tystiolaeth a fydd yn gwasanaethu cynlluniau datblygu lefelau Strategol a Lleol.

3.56 Mae'n rhaid i CDLlau gyd-fynd â'r cynlluniau datblygu haen uwch sydd uwch eu pennau. Dyma un o'r profion o Gadernid a fydd yn cael eu profi wrth Archwilio.

3.57 Yn ystod cyfnod y CDLl presennol, mae'r Cyngor wedi gwneud gwaith llwyddiannus ar y cyd ar dystiolaeth, gan gynnwys tystiolaeth yn ymwneud ag Anghenion Sipsiwn a Theithwyr, Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a Safleoedd Cyflogaeth Rhanbarthol. Mae'r Adroddiad Adolygu yn cynnig rhagor o fanylion ar sut yr archwiliwyd cyfleoedd i gydweithio.

## Y Gymraeg ac Ymgysylltu Dwyieithog

3.58 Bydd y CDLl Newydd yn cael ei baratoi yn ddwyieithog yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg. Bydd ymgysylltu dwyieithog yn digwydd yn y ffyrdd canlynol:

- Rydym yn croesawu gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Pan fydd gohebiaeth yn cael ei derbyn yn y Gymraeg a bod angen ymateb, bydd hwn yn cael ei anfon yn Gymraeg;
- Bydd pob llythyr ymgynghori, ffurflen sylwadau, hysbysiad cyhoeddus (gan gynnwys hysbysiadau safle) a chylchlythyr yn ddwyieithog;
- Bydd unrhyw dudalennau ar wefan y Cynllun Datblygu Lleol ac mewn negeseuon cyfryngau cymdeithasol a gyhoeddir ar twitter yn ddwyieithog;
- Ar ôl ei fabwysiadu, bydd y CDLl Newydd ar gael mewn Fformat Cymraeg a Saesneg.

# Atodiad 1. Rhestr o Gyrff Ymgynghori

## Cyrff Ymgynghori Penodol

- Llywodraeth Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Ysgrifennydd Gwladol Cymru
- CADW
- Darparwyd Cyfathrebu
- Bwrdd Iechyd Lleol – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Ymgymerwyr Trydan a Nwy
- Ymgymerwyr Carthffosiaeth a Dŵr
- Network Rail

Awdurdodau perthnasol (yn golygu'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl), Cynghorau Tref neu Gymuned) y mae unrhyw ran o'u harwynebedd yn ardal ACLl Powys neu'n gyfagos ati

ACLlau sydd nesaf at ardal ACLl Powys:

- Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Sir Gaerfyrddin
- Ceredigion
- Sir Ddinbych
- Gwynedd.
- Swydd Henffordd (Lloegr)
- Castell-nedd Port Talbot
- Swydd Amwythig (Lloegr)
- Parc Cenedlaethol Eryri
- Wrecsam

ACLlau sydd nesaf at Sir Powys:

- Blaenau Gwent
- Caerffili
- Merthyr Tudful
- Sir Fynwy
- Rhondda Cynon Taf

- Yr Holl Gynghorau Tref a Chymuned sydd o fewn ac sydd nesaf at ardal yr ACLl.

## Adrannau Llywodraeth y DU

i. Yr Adran Drafnidiaeth

ii. Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

iii. Y Swyddfa Gartref

iv. Y Weinyddiaeth Amddiffyn

## Cyrff Ymgynghori Cyffredinol

Diffinnir y rhain yn y rheoliadau CDLl fel:

I. Cyrff gwirfoddol, y mae gweithgareddau rhai neu bob un ohonynt o fudd i unrhyw ran o Bowys.
II. Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau hil, ethnig neu genedlaethol ym Mhowys.
III. Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau crefyddol ym Mhowys.
IV. Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau pobl anabl ym Mhowys.
V. Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n cyflawni Busnes ym Mhowys
VI. Cyrff sy'n cynrychioli budd Diwylliant Cymru ym Mhowys.

**Mae'r Cyngor wedi nodi'r grwpiau canlynol fel Cyrff Ymgynghori Cyffredinol (nodwch fod y rhestr yn enghreifftiol ac nid yw'n holl gynhwysfawr):**

Addysg Oedolion Cymru
Cymdeithas Henebion Cymru
Hygyrchedd Powys
Age Cymru Powys
Assemblies of God
Cymdeithas o Eglwysi Efengylaidd yng Nghymru
Undeb Bedyddwyr Cymru
Grŵp Mynediad Brycheiniog
Mind Aberhonddu a'r Cylch
Consortiwm Manwerthu Prydain
Gwasanaethau Trais yn y Cartref Calan
Eglwys Catholig Cymru a Lloegr
Fforwm Economaidd Canolbarth Cymru
Siambrau Cymru – De Ddwyrain, De Orllewin a'r Canolbarth
Eglwys Loegr
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys
Coed Cymru
Gweithredu Cymunedol Machynlleth a'r Cylch
Eglwysi cymunedol
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Conffederasiwn Diwydiant Prydain - Cymru
Ffederasiwn Annibynnol
Y Cyngor Archaeoleg Brydeinig
Credu – cysylltu gofalwyr
Cytûn Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Materion Dementia ym Mhowys
Pwyllgor Ymgynghorol Cludiant i Bobl Anabl
Anabledd Powys
Anabledd Cymru
Ymddiriedolaeth Neuadd Efengyl Dolafon
Cynghrair Efengylaidd Cymru
Undeb Amaethwyr Cymru
Ffederasiwn Adeiladwyr Meistr Cymru
Ffederasiwn y Busnesau Bach
Ffederasiwn Sefydliad y Merched yng Nghymru, Maldwyn, Maesyfed a Brycheiniog
Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc yng Nghymru, Maldwyn, Maesyfed a Brycheiniog
Cymdeithas Eglwysi Efengylaidd Annibynnol
Cyngor Eglwysi Rhydd Cymru
Ymddiriedolaeth y Gerddi
Grŵp Sioraidd
Sipsiwn a Theithwyr Cymru
Cyngor y Sipsiwn

Cymdeithasol Ddiwylliannol Hindwaidd
Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
Cyngor Rhyng-Ffydd Cymru
Mencap Cymru
Menter a Busnes
Menter Iaith Maldwyn
Merched y Wawr
Mind Canolbarth a Gogledd Powys
Grwp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru
Twristiaeth Canolbarth Cymru
Mudiad Meithrin
Cyngor Mwslimaidd Cymru
Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
Ffederasiwn Pagan Canolbarth a Gorllewin Cymru
Eglwys Brodyr Cristnogol Plymouth
Cymdeithas Ponthafren
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys
Cyngor ar Bopeth Powys
Pobl yn Gyntaf Powys
Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Rapid Relief Team
Relief in Need
Corff Cynrychiadol yr Eglwys yng Nghymru
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Byddin yr Iachawdwriaeth
Sense Cymru
Seventh-day Adventist Church in Wales
Siawns Teg
Cyngor Sikh Cymru
Cymdeithas y Cyfeillion
Cymdeithas Diogelu Adeiladau Hynafol
Tai Pawb
Ymddiriedolaeth Theatrau
Teithio Ymlaen
Cymdeithas yr Ugeinfed Ganrif
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg
Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig
Urdd Gobaith Cymru
Cymdeithas Fictoraidd
Croeso Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cynghrair Ffederasiwn Adeiladu Cymru
Ymdiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru
Ystradgynlais Mind

### Cyrff Ymgynghorol Amgylcheddol (Rheoliadau AAS)

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- CADW: Henebion Hanesyddol Cymru
- Asiantaeth yr Amgylchedd Lloegr
- Historic England
- Natural England
- Adrannau Eraill y Llywodraeth (fel sy'n cael eu hystyried i fod yn berthnasol)

## Cyrff Ymgynghorol Eraill

O dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (a.63(3)) yn ogystal â'r Cyrff Ymgynghori Penodol a Chyffredinol a ragnodir, gall y Cyngor gynnwys:

"unrhyw bersonau eraill y mae'n ymddangos i'r Awdurdod fod ganddynt fuddiant mewn materion sy'n ymwneud â datblygu yn ardal yr Awdurdod".

**Mae'r Cyngor wedi nodi'r grwpiau canlynol fel Cyrff Ymgynghori Eraill (nodwch fod y rhestr yn enghreifftiol ac nid yw'n holl-gynhwysfawr):**

Gweithredwyr Meysydd Awyr
Cymdeithas Tai Barcud
Cymdeithas Parc Bannau Brycheiniog
Cymdeithas Agregau Prydain
Arolwg Daearegol Prydain
Cymdeithas Ceffylau Prydain
Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau
Ymddiriedolaeth Cilffyrdd a Llwybrau Ceffylau
Caersws Concerned Residents Group
Rhwydwaith Calon Cymru
Cymdeithas Mynyddoedd Cambria
Ymgyrch am Gwrw Go Iawn
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (YDCW) cangen Maldwyn
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (YDCW) Cangen Brycheiniog a Sir Faesyfed
Ymgyrch Diogelu Lloegr Wledig (CPRE) Swydd Amwythig
Ymgyrch Diogelu Lloegr Wledig (CPRE) Swydd Henffordd
Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd
Ymddiriedolaeth Carbon Cymru
Grŵp Safleoedd Geoamrywiaeth Sy'n Bwysig yn Rhanbarthol (RIGS) Canolbarth Cymru
Canolfan y Dechnoleg Amgen (Machynlleth)
Canolfan Ecoleg a Hydroleg
Comisiynydd Plant Cymru
Cymdeithasau Dinesig
Awdurdod Hedfan Sifil
Cymdeithas Tai Clwyd Alyn
Tirwedd Cenedlaethol Bryniau Clwydian a Dyffryn Dyfrdwy (AHNE)
Awdurdod Glo
Coed Cadw, Woodland Trust in Wales
Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru
Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol Cymru
Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol
Swyddfa Ystâd y Goron
Cwmpas (yn flaenorol Canolfan Cydweithredol Cymru)
Cymdeithas Eryri
Cymdeithas yr Iaith
Comisiwn Dylunio Cymru
Banc Datblygu Cymru
Cwmni Cydweithredol Tai Dyfi
Heddlu Dyfed Powys
Partneriaeth Eco Dyfi
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Treftadaeth Lloegr
Ymddiriedolaeth Arbed Ynni Cymru

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru
Meysydd Chwarae Cymru
Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Cyngor Ymwybyddiaeth Hedfan Cyffredinol
Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd Glandŵr Cymru
Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru
Cymdeithas Tai Grwp Cynefin
Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Ymddiriedolaeth Heulwen
Cymdeithas Dyfrffyrdd Mewndirol
Cymdeithas Tai Linc Cymru
Man Gwyrdd Cymunedol Llanigon
Logistics UK (yn gynt Cymdeithas Cludo Nwyddau)
Cartrefi Melin
Aelodau Seneddol Sir Drefaldwyn, Brycheiniog a Sir Faesyfed
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
TraCC Consortiwm Trafnidiaeth Canolbarth Cymru
Cymdeithas Cynhyrchion Mwynol Cymru
Partneriaeth Camlas Maldwyn
Prosiect Gofal Cymunedol Maldwyn
Ymddiriedolaeth Adfer Dyfrffordd Trefaldwyn
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Maldwyn
Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Gwasanaethau rheoli traffig awyr NATS
Cymdeithas Tai Newydd
Cymdeithas Clawdd Offa
Un Llais Cymru
Y Drenewydd Agored
Cymdeithas Mannau Agored
Swyddfa Rheoleiddio Niwclear
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Cymorth Cynllunio Cymru
Cymdeithas Tai POBL
Daliadau Eiddo Swyddfa'r Post
Fforwm Mynediad Lleol Powys
Partneriaeth Natur Powys
Ramblers Powys
Ymddiriedolaeth Adfywio'r Tywysog
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cymdeithas Sir Faesyfed
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Faesyfed
Ramblers Cymru
Grŵp Cludo Nwyddau ar y Rheilffyrdd
Rhaeadr Gwy 2000
Ymddiriedolaeth Cadwraeth Afon Gwy
Bancio Cymunedol Robert Owen
RSPB Cymru
Aelodau'r Senedd ar gyfer Sir Drefaldwyn, Brycheiniog a Sir Faesyfed, a rhanbarth Canolbarth Cymru
Shelter Cymru
Yr Amwythig – Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Aberystwyth (SARPA)
Partneriaeth Tirwedd Cenedlaethol Bryniau Swydd Amwythig (AHNE)
Cymdeithas Undeb Camlas Swydd Amwythig
Grŵp Safleoedd Geoamrywiaeth Sy'n Bwysig yn Rhanbarthol (RIGS) De-ddwyrain Cymru

**Cyrff Ymgynghorol Eraill (Parhad)**

Sustrans Cymru
Cymdeithas Camlas Abertawe
Chwaraeon Cymru
Tai Teg (Cofrestr Tai Fforddiadwy)
Trafnidiaeth Cymru
Cynghrair Diwygio Cyfraith Teithwyr
Cyswllt Amgylchedd Cymru
Cymdeithas Tai Wales & West
Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru
Ymddiriedolaeth Barcudiaid Cymru
Comisiynydd y Gymraeg
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru
Sefydliad Gwy ac Wysg

## Atodiad 2. Yr Amserlen Fanwl

Mae’r amserlen ar gyfer y CDLl Newydd yn cynnwys cyfnodau diffiniol (1-4) y mae gan y Cyngor rywfaint o reolaeth drostynt, a chyfnodau dangosol (5-8) sy’n ddibynnol ar ffactorau allanol. Mae Cyfnod 9 yn cyfeirio at gyfnodau dilynol Monitro ac Adolygu. Mae’r amserlen hon yn hollbwysig i sicrhau bod cynllun newydd wedi cael ei archwilio, ei ganfod yn gadarn ac yn weithredol cyn gynted â phosibl ar ôl i’r CDLl mabwysiedig ddod i ben (2011-2026).

Mae’r amserlen yn cynnwys dyddiadau allweddol ar gyfer paratoi a chyhoeddi’r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd cysylltiedig (mae hyn yn digwydd ar sail Arfarniad Integredig).

Ar ôl ei fabwysiadu, bydd y CDLl Newydd yn destun Monitro Blynyddol gyda'r Adroddiad Monitro cyntaf i’w gyflwyno ar / cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ar ôl ei fabwysiadu
Yn y cyfamser, bydd y Monitro Blynyddol o’r CDLl sydd wedi’i fabwysiadu ar hyn o bryd yn parhau a’r canlyniadau yn cael eu defnyddio i helpu i lunio’r cynnwys sy’n esblygu ar gyfer y CDLl Newydd.

## AMSERLEN CDLl NEWYDD POWYS

Mae'r Rheoliadau yn cyfeirio at: Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015

### Cyfnodau Diffiniol

**Tabl 4 Cyfnodau 1-3, Cytundeb Cyflawni, Casglu Tystiolaeth a Chyfranogiad Rhanddeiliaid, Cyfranogiad ac Ymgynghori Cyn-adneuo.**

| Cyfnod | Manylion | Diben | Dyddiadau | Dogfennau Dilynol |
|---|---|---|---|---|
| **1** | **Y Cytundeb Cyflawni**<br>(Rheoliadau 5-10) | Cytuno ar Amserlen a Chynllun Cynnwys Cymunedau priodol ar gyfer paratoi'r CDLl Newydd.<br>Arfarniad Cynaliadwyedd (AC/ACI) – Ystyried tasgau | Tachwedd 2021 i Fawrth 2022 gan gynnwys:<br><br>O leiaf 3 wythnos o Ymgynghori Cyhoeddus anstatudol<br>Ionawr-Chwefror 2022<br><br>Proses gymeradwyo'r Cyngor<br>Mawrth 2022<br><br>Cyflwyno i Lywodraeth Cymru 1 Mehefin 2022 | Cytundeb Cyflawni wedi'i Gymeradwyo |
| **2** | **Casglu Tystiolaeth a Chyfranogiad Rhanddeiliaid** | Casglu gwybodaeth a thystiolaeth i ddeall y cyd-destun ar gyfer y CDLl Newydd a materion i roi sylw iddynt.<br><br>Gwneud Galwad am Safleoedd Ymgeisiol a pharatoi Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol.<br><br>Llunio gweledigaeth ac amcanion ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd | Dechrau paratoi'r cynllun yn ffurfiol: 1 Gorffennaf 2022<br><br>Cyfnodau 2 a 3 yn cael eu cynnal rhwng Gorffennaf 2022 a Gorffennaf 2025 ac yn cynnwys:<br><br>O leiaf 6 wythnos Galwad am Safleoedd o Dymor yr Hydref 2022 | Papurau Tystiolaeth Cefndirol<br><br>Cofnodion/Nodiadau/Pwyntiau Gweithredu o Ymarferion Cyfranogiad Rhanddeiliaid<br><br>Dull Asesu Safleoedd Ymgeisiol a Phecyn Ymgeisio Safleoedd Ymgeisiol |

| Cyfnod | Manylion | Diben | Dyddiadau | Dogfennau Dilynol |
|---|---|---|---|---|
| | | AC/ACI: Cyfnod cwmpasu**:** Pennu'r cyd-destun, sefydlu'r llinell sylfaen a phenderfynu ar gwmpas ac amcanion yr AC/AAS | Ymgynghoriad statudol 5 wythnos gyda Chyrff Amgylcheddol ar yr Adroddiad Cwmpasu Llinell Sylfaen Integredig (yn cynnwys yr AC/AAS) | Adroddiad Cwmpasu'r AC/ACI |
| **Yn Ystod Cyfnod 2** | **Cyfranogiad Cyn-adneuo** (Rheoliad 14) | Datblygu ac asesu opsiynau strategol, profi opsiynau amgen a chytuno ar strategaeth a ffefrir ar gyfer y CDLl Newydd, gan fanteisio ar yr holl dystiolaeth a gasglwyd yng Nghyfnod 2 | Parhaus: Gorffennaf 2022 i Orffennaf 2024 | Yn fewnol, bydd Strategaeth a Ffefrir Ddrafft yn cael ei pharatoi (ar gyfer prosesau cymeradwyaeth y Cyngor i gychwyn) |
| **3** | **Ymgynghori Cyn-adneuo** (Rheoliadau 15 a 16)<br><br>**Ymgynghori ar yr Adroddiad AC Cychwynnol** | Ymgynghori yn eang ar y strategaeth a ffefrir, opsiynau strategol a'u hasesiadau cysylltiedig.<br><br>AC/ACI: Cyfnod arfarnu opsiynau amgen: Datblygu a mireinio opsiynau amgen rhesymol ac asesu effeithiau, Paratoi'r Adroddiad AC Cychwynnol | Ymgynghoriad Statudol 6 wythnos<br>Awst i Hydref 2024 | Strategaeth a Ffefrir yn cyflwyno'r weledigaeth, yr amcanion, y strategaeth a ffefrir a pholisïau allweddol.<br><br>Y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol<br><br>Dogfennau ategol<br><br>Cyhoeddi AC/ACI o gynigion ac opsiynau amgen yn yr Adroddiad AC Cychwynnol |

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 5-10,14, 15 ac 16 (2005) a Rheoliadau 2 (5,10) ac 16a (2015).

Yn ystod Cyfnod 3, ar ôl yr ymgynghoriad, mae'r Cyngor wedi neilltuo naw mis ar gyfer paratoi'r Fersiwn Adneuo o'r Cynllun. Bydd sylwadau a wneir yn briodol yn y cyfnod Cyn-adneuo yn cael eu hystyried yn ofalus a manylion y trefniadau ymgynghori, y materion a godwyd a sut y byddant yn cael sylw yn cael eu crynhoi a'u cofnodi mewn Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol (Rheoliad 16A). Bydd y Fframwaith AC/ACI yn cael ei ddefnyddio i asesu a lliniaru effeithiau'r cynllun Adneuo a chanlyniadau'r asesiad(au) yn cael eu cofnodi yn rhan o'r Adroddiad AC (yr "Adroddiad Amgylcheddol"). Bydd yr adroddiad AC yn cofnodi canlyniadau asesu unrhyw opsiynau diwygiedig neu newydd sy'n deillio o ymgynghori cyhoeddus neu newidiadau eraill yn ogystal â sylwadau o Gyfnod 3 (bydd y cyrff ymgynghori amgylcheddol statudol yn cael eu hysbysu ac yn cael cyfle i wneud sylwadau).

### Tabl 5 Cyfnod 4, CDLl Newydd Adneuo

| Cyfnod | Manylion | Diben | Dyddiadau | Dogfennau Dilynol |
|---|---|---|---|---|
| 4 | **Cyhoeddi ac Ymgynghori ar CDLl Adneuo a dogfennau ategol, eu gwneud ar gael i'w harchwilio.**<br>(Rheoliad 17)<br><br>**Ymgynghori ar yr Adroddiad AC** | Caniatáu i sylwadau ffurfiol gael eu gwneud ar gynigion y Cyngor.<br><br>AC/ACI: Asesiad o'r Cynllun Adneuo a pharatoi'r Adroddiad AC | Cynhelir y cyfnod hwn rhwng Awst 2025 ac Awst 2026 ac mae'n cynnwys:<br><br>Ymgynghoriad Cyhoeddus Statudol 6 wythnos<br>Hydref i Dachwedd 2025 | Cynllun Adneuo a dogfennau ategol<br><br>Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol<br><br>Bydd y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol wedi'i Diweddaru yn cynnwys safleoedd newydd ac amgen<br><br>Cyhoeddi AC/ACI o'r cynigion yn yr Adroddiad AC |

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 17, 18 a 19 (2005).

Yn dilyn Cyfnod 4, mae'r Cyngor wedi neilltuo naw mis i:

- cofnodi a dadansoddi'r sylwadau adneuo (Rheoliad 18) a'u gwneud ar gael i'w harchwilio (Rheoliad 19),
- ymatebion drafft y Cyngor ac ystyried newidiadau (Newidiadau â Phwyslais fydd yr eithriad),
- parhau gyda'r gwaith o baratoi diweddariadau/tystiolaeth ychwanegol,
- cwblhau'r adroddiad ymgynghori gan gynnwys canlyniadau parhaus yr AC/ACI
- a pharatoi'r holl ddogfennau cyflwyno.

## Cyfnodau Dangosol

### Tabl 6 Cyfnodau 5-9, Cyflwyno, Archwilio, Adroddiad yr Arolygwyr, Mabwysiadu ac Adroddiad Monitro Blynyddol

| Cyfnod | Manylion | Diben | Dyddiadau | Dogfennau Dilynol |
|---|---|---|---|---|
| 5 | **Cyflwyno CDLl i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio* ar gyfer Archwiliad Annibynnol** (Rheoliad 22)<br><br>**Gwneud dogfennau perthnasol ar gael**<br><br>**Bydd y Cyngor yn dilyn canllawiau cyhoeddedig ar baratoi/gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno ac archwilio).** | Darparu'r CDLl Newydd, barn y Cyngor ar sylwadau a wnaed yng nghyfnod 4 a dogfennau ategol eraill (gan gynnwys Adroddiad Ymgynghori wedi'i ddiweddaru) i Lywodraeth Cymru cyn archwiliad ffurfiol. | Medi 2026 | Cyhoeddi'r cyflwyniad a gwneud dogfennau ar gael |
| 6 | **Archwiliad Annibynnol wedi'i gynnal gan PCAC** (Rheoliad 23) | Darparu safbwynt cynllunio diduedd ar gadernid y CDLl<br><br>Yn y Cyfnod Archwilio, mae'r AC/ACI yn parhau i sicrhau bod unrhyw newidiadau a wneir i'r cynllun adneuo (Newidiadau â Phwyslais, Newidiadau i Faterion sy'n Codi wrth archwilio, neu'r rhai y mae'r Arolygydd yn eu gwneud yn ofynnol) yn gynaliadwy. | Mae PCAC yn dynodi bod y broses Archwilio yn cael ei chynnal o fewn 11 mis i gyflwyno | Yn ystod y Cyfnod Archwilio, bydd unrhyw Newidiadau Ôl-adneuo Arfaethedig (Newidiadau i Faterion sy'n Codi) yn cael eu gwneud ar gael ar gyfer ymgynghori (gan gynnwys yr asesiad AC/ACI sy'n gysylltiedig â nhw). |
| 7 | **Adroddiad yr Arolygydd** (Rheoliad 24) | Derbyn canfyddiadau'r Arolygydd o'r Archwiliad Annibynnol. | Awst 2027 | Bydd y Cyngor yn derbyn ac yn cyhoeddi Adroddiad yr Arolygwyr ar neu cyn mabwysiadu'r Cynllun |
| 8 | **Mabwysiadu** (Rheoliad 24) | Rhoi'r CDLl ar waith fel y Cynllun Datblygu statudol ar gyfer ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol | O fewn 8 wythnos o dderbyn yr Adroddiad (Cyfnod 7)<br>Medi 2027 | Cynllun Datblygu Lleol Newydd Powys (2022-2037) |

| Cyfnod | Manylion | Diben | Dyddiadau | Dogfennau Dilynol |
|---|---|---|---|---|
| | | (anfon y CDLl a'r Datganiad Mabwysiadu i Lywodraeth Cymru).<br><br>Y CDLl yn cael ei wneud i'w archwilio, datganiad mabwysiadu yn cael ei lunio a'i gyhoeddi<br><br>AC/ACI: Cwblhau'r Adroddiad AC a'r Datganiad Amgylcheddol | | Datganiad Mabwysiadu<br><br>Datganiad Ôl-fabwysiadu ar y fframwaith AC<br><br>Adroddiad AC/ACI<br><br>Yr Adroddiad Ymgynghori<br><br>O fewn 6 wythnos o'i fabwysiadu: Datganiad Ôl-Mabwysiadu ar fframwiath AC |
| **9** | **Monitro ac Adolygu Blynyddol** (Rheoliadau 37 a 41(1)) | Llunio Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB)<br>Yn cynnwys Monitro o dan Reoliad 17 y Rheoliadau AAS o effeithiau amgylcheddol sylweddol a chyflwyno i Lywodraeth Cymru.<br><br>Cychwyn adolygiad o'r Cynllun Datblygu bob 4 blynedd o leiaf | Cyflwyno'r AMB cyntaf yn seiliedig ar y fframwaith monitro yn y CDLl Newydd: Ar/cyn 31 Hydref, yn y flwyddyn ar ôl ei fabwysiadu | Unwaith y bydd y CDLl Newydd yn ei le am flwyddyn ariannol lawn (1 Ebrill i 31 Mawrth) erbyn Hydref ac yn flynyddol wedi hynny.<br><br>Adolygiad Statudol 1af o fewn 4 wythnos o'r dyddiad mabwysiadu, erbyn Ebrill 2030. |

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 22, 23, 24, 25 37, (2005) a Rheoliad 2 (17, 19) 41 (1) (2015)

## Atodiad 3. Asesiad Risg

Er y bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i osgoi gwyriadau o'r amserlen arfaethedig, mae'r Cyngor wedi nodi nifer o risgiau a nodir isod, ynghyd â dull y Cyngor o'u rheoli.

**Tabl 7 Risgiau i'r Broses o Baratoi'r CDLl Newydd**

| Risg | Effaith Bosibl | Tebygolrwydd | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| **Mae'r amserlen yn rhy uchelgeisiol oherwydd llwyth gwaith mwy na'r disgwyl neu dystiolaeth wedi'i hoedi/tystiolaeth yn dod i'r amlwg ar adegau nad ydynt yn cyd-fynd â'r CC.**<br><br>**Efallai na fydd amseru Tystiolaeth Gritigol (y tu allan i gwmpas yr ACLl) yn cyd-fynd ag Amserlen y CC - E.e. canlyniadau Cyfrifiad 2021, Tystiolaeth Ansawdd Afonydd (ACC)** | Llithriant y Rhaglen | Canolig-Uchel | Ystyried adnoddau ychwanegol.<br><br>Cynllunio Anghenion Tystiolaeth ac Ymgymryd â/Comisiynu gwaith Casglu Tystiolaeth ymhell ymlaen llaw<br><br>Paratoi'r Cynllun i fod yn addasadwy ac yn ymatebol/hyblyg i newid pan fo'n bosibl |
| **Gofynion ychwanegol yn deillio o ddeddfwriaeth neu ganllawiau newydd, neu dystiolaeth newydd, Cynlluniau a Strategaethau eraill a phrosesau asesu** | Angen gwaith ychwanegol, ansicrwydd posibl a llithriant y rhaglen | Canolig-Uchel | Monitro deddfwriaeth / canllawiau sy'n dod i'r amlwg ac ymateb yn gynnar i newidiadau pan fo hyn yn bosibl |
| **Amhariadau pandemig COVID 19** | Ansicrwydd parhaus – goblygiadau i gydymffurfiad â'r Cynllun Cynnwys Cymunedau, effaith ar staffio/staff sydd ar gael ar gyfer rhanddeiliaid mewnol ac allanol | Uchel | Addasu ymarferion ymgysylltu'r Cynllun Cynnwys Cymunedau<br><br>Gweithio gyda lleoliadau Adneuo i sicrhau cymaint o hygyrchedd â phosibl o fewn y cyfyngiadau a bennir gan reoliadau Covid |
| **Oediadau Comisiynu neu Ymdrin â Thystiolaeth Anghyflawn – e.e., mynd i'r afael ag agweddau anhysbys** | Llithriant y Rhaglen | Canolig | Rheoli Prosiect a dewis ymgynghorwyr yn ofalus |

| Risg | Effaith Bosibl | Tebygolrwydd | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| **arwyddocaol fel costau seilwaith yn gysylltiedig â safleoedd** | | | Gweithio gyda Datblygwyr i ddod o hyd i atebion/ gwella dyfnder y dystiolaeth<br><br>Llunio a chytuno ar Ddatganiadau o Dir Cyffredin i hwyluso'r broses |
| **Digonolrwydd Adnoddau (Ariannol a Staff), e.e. I ymdopi â Llwyth Gwaith ar Gyfnodau Brig, Costau ac Ymgynghorwyr Arbenigol ar Gael, risg o newidiadau Staff/ oediadau recriwtio** | Llithriant y Rhaglen | Canolig | Cynllunio cyllidebau ymlaen llaw<br><br>Sicrhau bod y CDLl yn cadw'r flaenoriaeth uchaf<br>Dyrannu cyllid digonol yng nghyllideb y CDLl Newydd yn ogystal â chyllideb wrth gefn i roi sylw i gostau na ragwelwyd. |
| **Prosiectau TG yn Mynd Dros Amser (e.e. Cronfa Ddata Ymgynghori, Mapio Cyfyngiadau)** | Llithriant y Rhaglen, Llwyth Gwaith Mwy | Isel | Rheoli Prosiect |
| **Oediadau a achosir gan gyfieithu i'r Gymraeg a/neu'r broses argraffu.** | Llithriant y Rhaglen | Isel | Ystyried adnoddau ychwanegol<br><br>Gweithio yn agos ag adrannau perthnasol |
| **Etholiadau Cyngor Sir a newid grym gwleidyddol – Mai 2022** | Llithriant y Rhaglen | Isel | Amserlen realistig<br><br>Cynnwys yr holl grwpiau gwleidyddol |
| **Cyrff Ymgynghori ddim yn gallu cynnig sylwadau cyn gynted â'r disgwyl**<br><br>**Cyrff Ymgynghori yn methu a chynnig sylwadau** | Gwybodaeth Annigonol i Hysbysu'r Cynllun<br><br>Llithriant y Rhaglen | Canolig | Cadw cysylltiad agos i sicrhau rhybudd cynnar am unrhyw broblemau<br><br>Sicrhau bod safbwyntiau cyrff ymgynghori yn cael eu ceisio a'u hystyried yn gynnar yn y broses ac ymgysylltu dilynol wedi hynny<br><br>Meithrin perthynas dda a chreu cysylltiadau |
| **Diffyg consensws drwy'r sefydliad a/ neu ddiffyg** | Llithriant y rhaglen | Isel/Canolig | Sicrhau cysylltiad agos ag Aelodau a |

| Risg | Effaith Bosibl | Tebygolrwydd | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| **cefnogaeth gan swyddogion/adrannau eraill wrth lunio'r sylfaen dystiolaeth** | | | Swyddogion allweddol a'u cyfranogiad cynnar. |
| **Cymryd rhan yn y gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol (SDP)** | Llithriant y rhaglen. Goblygiadau adnoddau, graddau'r mewnbwn i'r SDP yn anhysbys ar hyn o bryd. | Isel-Canolig | Sicrhau bod adnoddau digonol ar gael a chefnogaeth gorfforaethol i broses y SDP a'r amserlen wedi'i halinio o'r cychwyn â pharatoad y CDLl Newydd. |
| **Adolygiad Cynnar o'r CDLl Newydd neu atal y CDLl Newydd cyn ei fabwysiadu oherwydd y gofyniad i gyd-fynd â'r Cynllun Datblygu Strategol** | Llithriant y rhaglen | Isel | Sicrhau cyfranogiad yng nghynnydd gwaith rhanbarthol. Cyswllt parhaus â Llywodraeth Cymru. |
| **Cyfarwyddyd gan Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru i baratoi Cyd-gynllun.** | Byddai gwaith ar CDLl Newydd unigol yn ofer. | Isel | Sicrhau cysylltiad agos â Llywodraeth Cymru.<br>Parhau i gynnwys ACLlau partner Canolbarth Cymru mewn mentrau gwaith ar y cyd/cydweithredol |
| **PCAC yn methu â chadw at yr amserlen ar gyfer archwilio ac adrodd** | Archwiliad a/neu'r adroddiad wedi'i oedi<br><br>Cerrig milltir allweddol yn y rhaglen heb eu bodloni | | Cysylltiad cynnar â PCAC<br>Sefydlu Lefel Gwasanaeth i sicrhau y cedwir at yr amserlen y cytunwyd arni |
| **Llithriant y Rhaglen yn arwain at Fethiant i fabwysiadu'r CDLl erbyn 1 Ebrill 2026** | ACLl Powys yn cael ei adael heb fframwaith gwneud penderfyniadau CDLl a fabwysiadwyd | Isel | Cydymffurfiad â'r CC, caniatáu cyn lleied o lithriant a phosibl (3 mis)<br><br>Rheoli Prosiect a blaengynllunio<br><br>Sicrhau bod y CDLl yn cadw'r flaenoriaethu uchaf ar lefel gorfforaethol |

# Atodiad 4. Crynodeb o'r Cam Ymgynghori – Sylwadau a Dderbyniwyd ac Ymateb y Cyngor ynghyd â'r newidiadau o ganlyniad

**Tabl 8. Sylwadau ac Ymateb y Cyngor i'r Ymgynghoriad ar y Cytundeb Darparu Drafft (Ymgynghoriad wedi'i gynnal rhwng 6 Ionawr a'r 1 Chwefror 2022)**

| Rhif | Sylwadau gan | Crynodeb o'r sylwadau | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|
| 1. | Unigolyn | Byddai gwasanaethau bws gwell i bentref Maesyfed ar amserlen o bob hanner awr, i ac o'r trefi lleol, yn annog pobl i adael eu car gartref.<br><br>Byddai bysus gyda'r nos o drefi mwy (e.e. Henffordd) yn rhoi mwy o ddewis i deithio adref heb y car ar ôl bod yn y sinema, theatr neu i ddod yn ôl o'r orsaf drenau.<br><br>Mae'n debyg y byddai gwasanaeth gwennol yn addas i fini-bysus. | Noda'r Cyngor y sylwadau ar wella trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd hwn yn fater i'w ystyried yn ofalus ym mhroses yr LDP diwygiedig wrth i bolisi cynllunio ar bob lefel (cenedlaethol, rhanbarthol a lleol) weithredu hierarchaeth o drafnidiaeth gynaliadwy i wella mynediad drwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Ni chynigir gwneud unrhyw newid i'r Cytundeb Darparu. |
| 2. | Cyngor Cymuned Maesyfed | Cofiwch nad yw Cynghorau Cymuned bach yn cyfarfod ym mis Awst fel arfer a dylid amseru unrhyw ymgynghori ar sail hynny.<br><br>A oes modd caniatáu digon o amser ar gyfer y cyfnod ymgynghori fel bod Cynghorau Cymuned yn gallu adolygu'r dogfennau (hirfaith yn aml) yn drylwyr. | Noda'r Cyngor y sylwadau. Mae amserlen yr RLDP yn cydymffurfio ag amserlen gymeradwy'r Llywodraeth o 3.5 blynedd ar gyfer paratoi'r cynllun ac yn sicrhau nad oes unrhyw fwlch yn nosbarthiad daearyddol y cynllun. Mae'r Cyngor yn deall bod angen digon o amser ar Gynghorau Tref a Chymuned i adolygu'r dogfennau a gwneud sylwadau ac wedi ceisio caniatáu ar gyfer hyn. Mae'r Amserlen arfaethedig yn cynnwys camau a lywodraethir yn llym gan reoliadau na ellir eu newid. Cofiwch nad yw'r ddau gam ymgynghori cyhoeddus o bwys, sef Camau 3 a 4, sydd dan reolaeth y Cyngor, yn rhan o'r Cytundeb Darparu ac na fydd y rhain yn digwydd ym mis Awst. Ni chynigir gwneud unrhyw newid i'r Cytundeb Darparu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3. | Cyngor Tref Y Drenewydd a Llanllwchaearn (Pwyllgor yr Economi a’r Amgylchedd) | Yn cytuno â’r amserlen ddarparu a’r amserlen ymgynghori ar gyfer yr RLDP. | Noda’r Cyngor y sylwadau. |
| 4. | Cyngor Tref Llanandras a Norton | Mae’r cyfnodau ymgynghori ar gyfer Awst yn broblem i lawer o Gynghorau Tref a Chymuned oherwydd nid ydynt yn cyfarfod ym mis Awst fel arfer.<br><br>A oes modd rhoi digon o amser ar gyfer pob rhan o’r ymgynghoriad – gyda Chynghorau Cymuned sy’n cyfarfod pob mis, byddai’n ddefnyddiol pe bai digon o amser yn cael ei ddyrannu i ymateb. | Noda’r Cyngor y sylwadau. Mae amserlen yr RLDP yn cydymffurfio ag amserlen gymeradwy’r Llywodraeth o 3.5 blynedd ar gyfer paratoi’r cynllun ac yn sicrhau nad oes unrhyw fwlch yn nosbarthiad daearyddol y cynllun. Mae’r Cyngor yn deall bod angen digon o amser ar Gynghorau Tref a Chymuned i adolygu’r dogfennau a gwneud sylwadau ac wedi ceisio caniatáu ar gyfer hyn. Mae’r Amserlen arfaethedig yn cynnwys camau a lywodraethir yn llym gan reoliadau na ellir eu newid. Cofiwch nad yw’r ddau gam ymgynghori cyhoeddus o bwys, sef Camau 3 a 4, sydd dan reolaeth y Cyngor, yn rhan o’r Cytundeb Darparu ac na fydd y rhain yn digwydd ym mis Awst. Ni chynigir gwneud unrhyw newid i’r Cytundeb Darparu. |
| 5. | Cyngor Plwyf cyfagos | Rhaid i unrhyw geisiadau sy’n effeithio ar y rhwydwaith ffyrdd lleol yn Sir Amwythig gynnwys ymgynghori traws-ffin. Mae nifer o fusnesau Magu Ieir sydd wedi derbyn caniatâd ac sy’n ffinio â’r plwyf hwn a rhaid ystyried y defnydd ychwanegol o ffyrdd gwledig sy’n cael eu cynnal yn wael. | Noda’r Cyngor y sylwadau. Bydd y Cyngor yn cynnwys cynghorau lleol yn y broses RLDP fel Cyrff Ymgynghori Penodol. Bydd rhanddeiliaid felly’n cael eu cynnwys wrth benderfynu ar ddyraniadau tir arfaethedig pan fydd y Cynllun yn cyrraedd y cam hwnnw. O ran ceisiadau cynllunio unigol, bydd eich sylwadau a’ch pryderon yn cael eu pasio ymlaen i atgoffa’r Is-adran Rheoli Datblygu sy’n delio â chyhoeddusrwydd a hysbysiadau statudol pan ddaw ceisiadau cynllunio i law. Ni chynigir gwneud unrhyw newid i’r Cytundeb Darparu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6. | Cadw, Cangen Amgylchedd Hanesyddol, Llywodraeth Cymru | Dim sylwadau ond atgoffa bod angen ymgynghori â Cadw fel rhan o'r broses SEA a'i bod yn bwysig ymgynghori ag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys (CPAT) sy'n cael eu hariannu i roi cyngor yn ystod y broses LDP, ar faterion archaeolegol. | Noda'r Cyngor y sylwadau. Mae'r Cytundeb Darparu'n rhestru Cadw fel Corff Ymgynghori Penodol ac Amgylcheddol. Bydd ymgynghori hefyd â CPAT, fel Corff Ymgynghori Cyffredinol, drwy gydol y cam o baratoi'r cynllun. Ni chynigir gwneud unrhyw newid i'r Cytundeb Darparu. |
| 7. | United Utilities | Yn dymuno gweithio mewn partneriaeth ac yn rhagweithiol i adnabod anghenion a rhannu gwybodaeth rhwng yr Awdurdod Cynllunio Lleol ac UU. Yn rhoi manylion cyswllt i ddatblygwyr gael gofyn am, a derbyn, cyngor cyn-gais am ddim ar wastraff a dŵr. Yn pwysleisio bod angen diogelu asedau seilwaith dŵr strategol a bod angen ymgysylltu'n gynnar ar ddyraniadau arfaethedig yng ngham yr RLDP er mwyn cadarnhau unrhyw gyfyngiadau a goblygiadau. Cais i barhau i ymgynghori wrth i'r Cynllun symud ymlaen. | Mae'r Cyngor yn cydnabod pa mor berthnasol yw'r materion a godir wrth baratoi'r LDP diwygiedig o ran cynllunio seilwaith, y broses dethol safleoedd ac i hyrwyddwyr safleoedd. Bydd y Cyngor yn parhau i ymgynghori ag United Utilities fel rhan o broses yr RLDP. Mae'r Cytundeb Darparu'n cadarnhau bod ymgymerwyr carthffosiaeth a dŵr yn Gyrff Ymgynghori Penodol fydd yn cael eu cynnwys yn fanwl drwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun. Ni chynigir gwneud unrhyw newid i'r Cytundeb Darparu. |
| 8. | Network Rail | Mae polisïau'n ymwneud â gwarchod a gwella'r seilwaith rheilffyrdd yn berthnasol a gallai cyfraniad gan y datblygwr fod yn ofynnol ar gyfer cynlluniau datblygu. Atgoffa'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r ddyletswydd statudol i ymgynghori ar effaith datblygiad ar groesfannau rheilffordd a bod y datblygwr yn ariannu unrhyw welliannau sy'n ofynnol. Cais i ymgynghori os gwelwch yn dda â Network Rail ar unrhyw bolisi, cyd-gais neu gais cynllunio yn y dyfodol os cyflwynir rhai ar gyfer safleoedd gerllaw neu'n agos i reilffordd, oherwydd gallai'r datblygiad effeithio ar weithrediad y rheilffordd, e.e. defnyddio croesfan a / neu orsaf reilffordd gerllaw a byddai Network Rail yna'n gwneud sylwadau penodol fel bo angen. | Nodir y sylwadau hyn. Mae Network Rail yn cael ei gynnwys ym mhroses yr RLDP fel Corff Ymgynghori Penodol a bydd yn rhan o'r broses o'r dechrau i'r diwedd. Nodir y sylwadau ar seilwaith, cyfraniad gan y datblygwr a'r effeithiau posib ar reilffyrdd, gorsafoedd rheilffyrdd a chroesfannau rheilffordd a gellir trafod y pethau hyn ymhellach yn ystod cam paratoi'r RLDP. Ni chynigir gwneud unrhyw newid i'r Cytundeb Darparu.<br><br>O ran ceisiadau cynllunio unigol neu gysylltu cyn-gais, bydd eich sylwadau hefyd yn cael eu pasio ymlaen i atgoffa'r Is-adran Rheoli Datblygu sy'n delio â |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | chyhoeddusrwydd a hysbysiadau statudol pan ddaw ceisiadau cynllunio i law. |
| 9. | Yr Awdurdod Glo | Gwybodaeth grynodeb gyffredinol am gofnodion yr Awdurdod Glo (nodweddion mwyngloddio ac adnoddau glo brig) yn ymwneud â Phowys a chyfrifoldeb yr Awdurdod Cynllunio Lleol dros gynllunio a diogelu mwynau. Fodd bynnag, dim sylwadau penodol i'w gwneud ar y ddogfen ymgynghori. | Nodir y wybodaeth, diolch. Bydd y Cyngor yn parhau i gynnwys Tîm Cynllunio'r Awdurdod Glo drwy gydol proses yr RLDP. Ni chynigir gwneud unrhyw newid i'r Cytundeb Darparu. |
| 10. | Glandŵr Cymru, yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru | Cais i ychwanegu Glandŵr Cymru, yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru, fel 'corff ymgynghori arall' yn Atodiad 1 y Cytundeb Darparu.<br><br>Yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Cyngor i sicrhau bod y Cynllun Lleol diwygiedig yn cynnwys fframwaith cadarn ar gyfer unrhyw ddatblygu a allai effeithio ar Gamlas Trefaldwyn a sicrhau bod trefniadau trylwyr yn eu lle i warchod hen linell y gamlas, tan y bydd wedi'i hadfer yn llawn. | Nodir y sylwadau hyn. Dylid nodi bod y Cyngor yn adolygu'r rhestr o Gyrff Ymgynghori yn Atodiad 1 y Cytundeb Darparu i greu adran fwy manwl. Bydd hyn yn bosib wrth i ddata-bas yr RLDP newydd ddatblygu. Bydd y manylion hyn ar gael yn y Cytundeb Darparu terfynol.<br><br>Bydd y rhestr yn cynnwys Glandŵr Cymru, yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru |
| 11. | Unigolyn | Gofyn am gadw'r Polisi E5 (Parc Iechyd Bronllys) presennol yn ei gyfanrwydd yn yr RLDP – wele hefyd yr Ymgynghoriad a'r Adborth ar yr Adroddiad Adolygu. Gofyn am gael eu hysbysu pan fydd cyfarfodydd trafodaethau agor yn cael eu cynnal gyda'r cyhoedd / rhanddeiliaid. | Nodir y sylwadau, fydd yn cael eu hystyried wrth adolygu'r rhan(nau) perthnasol o'r LDP fel rhan o broses yr RLDP, ac ar-y-cyd â'r rhanddeiliaid perthnasol. Dylid edrych ar yr Amserlen a'r Cynllun Cynnwys y Gymuned yn y Cytundeb Darparu, sy'n cynnwys 'ffenestr' ar gyfer y cam Enwebu Safleoedd (o dymor yr hydref 2022 ymlaen). Fel rhanddeiliad sy'n derbyn gohebiaeth a chael eich diweddaru ar yr LDP, byddwch yn cael gwybod am y cyfarfodydd trafod a nodwn yn benodol eich diddordeb yn y mater hwn. Ni chynigir gwneud unrhyw newid i'r Cytundeb Darparu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12. | Fforwm Mynediad Lleol Powys | Atodiad 1 tudalen 32 – mae'r Fforwm Mynediad Lleol yn gorff statudol a dylid sôn yn benodol amdanom fel rhanddeiliad / corff ymgynghori.<br><br>Dylid cyfeirio'n benodol at grwpiau ymgynghorol sy'n cynrychioli defnyddwyr hawliau tramwy lleol, e.e. Y Cerddwyr, Cymdeithas Ceffylau Prydain, ayyb. | Nodir y sylwadau hyn. Dylid nodi bod y Cyngor yn adolygu'r rhestr o Gyrff Ymgynghori yn Atodiad 1 y Cytundeb Darparu i greu adran fwy manwl. Bydd hyn yn bosib wrth i ddata-bas yr RLDP newydd ddatblygu. Bydd y manylion hyn ar gael yn y Cytundeb Darparu terfynol.<br><br>Bydd y rhestr yn cynnwys Fforwm Mynediad Lleol Powys a grwpiau eraill sy'n cynrychioli defnyddwyr hawliau tramwy lleol. |
| 13. | Cerddwyr Powys | Fel llais cenedlaethol dros gerddwyr sy'n defnyddio hawliau tramwy, a ellir enwi cangen Powys fel corff ymgynghorol ar gyfer LDP y Cyngor. Byddem yn hapus i gael ein cynnwys o ddechrau'r broses. | Nodir y sylwadau hyn. Dylid nodi bod y Cyngor yn adolygu'r rhestr o Gyrff Ymgynghori yn Atodiad 1 y Cytundeb Darparu i greu adran fwy manwl. Bydd hyn yn bosib wrth i ddata-bas yr RLDP newydd ddatblygu. Bydd y manylion hyn ar gael yn y Cytundeb Darparu terfynol.<br><br>Bydd y rhestr yn cynnwys Cerddwyr Powys. |
| 14. | Unigolyn | Gofyn am gadw'r Polisi E5 (Parc Iechyd Bronllys) presennol yn ei gyfanrwydd yn yr RLDP – wele hefyd yr Ymgynghoriad a'r Adborth ar yr Adroddiad Adolygu.<br><br>Polisi E5 – Parc Iechyd Bronllys: Bydd cynigion i ddatblygu safle Ysbyty Bronllys fel Parc Iechyd a Lles yn cael eu cefnogi. | Nodir y sylwadau, fydd yn cael eu hystyried wrth adolygu'r rhan(nau) perthnasol yn yr LDP fel rhan o broses yr RLDP, ac ar-y-cyd â'r rhanddeiliaid perthnasol. Dylid edrych ar yr Amserlen a'r Cynllun Cynnwys y Gymuned yn y Cytundeb Darparu, sy'n cynnwys 'ffenestr' ar gyfer y cam Enwebu Safleoedd (o dymor yr hydref 2022 ymlaen). Ni chynigir gwneud unrhyw newid i'r Cytundeb Darparu. |
| 15. | CRG (Grŵp Preswylwyr Pryderus) Caersws | Ar ôl y profiad yn Chwefror 2020 o fod yn rhy hwyr i herio cais cynllunio, rydym yn ymwybodol iawn o feini tramgwydd proses yr LDP.<br><br>Ymwybyddiaeth y Cyhoedd – yn lleisio pryderon am gyflwyniad y | Nodir y sylwadau hyn. Cofiwch ei bod yn gam cynnar iawn ym mhroses yr LDP diwygiedig (RLDP) ac ni ddisgwylir i'r Cynllun newydd ddod i rym tan 2026. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | wybodaeth a gofyn am fformat cliriach a mwy cryno heb gymaint o ddolenni. Cyhoeddusrwydd gwell i'r wybodaeth sydd ar gael.<br><br>Y Camau – a allai'r Cyngor nodi'n glir i breswylwyr lleol a'u Cynghorau Cymuned perthnasol beth yn union y maen nhw'n cytuno iddo, a sut fydd hyn yn effeithio nid yn unig arnyn nhw ond hefyd ar breswylwyr a chenedlaethau'r dyfodol?<br><br>Pa ddarpariaeth a wneir ar gyfer gwrando a gweithredu ar farn cynghorwyr newydd eu hethol, sydd efallai gyda gwybodaeth leol well a mwy diweddar?<br><br>Yn awgrymu bod angen craffu mwy trylwyr o safleoedd ymgeisiol yn y camau cynnar, neu wneud darpariaeth mewn cam nes ymlaen os ystyrir bod y safleoedd hyn yn anaddas am ba bynnag reswm, gan hefyd ystyried datblygiadau eraill a ganiatawyd yn lleol.<br><br>Dylid ystyried cynlluniau pentref, sydd wrthi'n cael eu creu gan Gynghorau Cymuned lleol, wrth wneud penderfyniadau. Dylid hefyd agor mwy o 'linellau cyfathrebu' rhwng Cyngor Sir Powys a phreswylwyr lleol drwy eu Cynghorau Cymuned. Ond eto, dylai'r wybodaeth a roddir i Gynghorau Cymuned fod yn glir a chryno er mwyn gallu gwneud hyn. | Mae'n debyg mai'r cam mwyaf perthnasol i'ch sylwadau yw Dyraniadau Tir arfaethedig yr RLDP – dylech ystyried yn ofalus beth fydd cynnwys y Strategaeth a Ffafrir, gan gynnwys y Strategaeth Dwf a Gofodol a Cham Fersiwn Adnau'r Cynllun fydd yn dilyn, a chwilio am safleoedd yn eich ardal. Dylech hefyd edrych ar y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol pan fydd ar gael.<br><br>Mae Cynghorau Tref a Chymuned yn Gyrff Ymgynghori Penodol fydd yn cael eu cynnwys drwy gydol y broses. Rydym wedi ychwanegu at baragraff 3.15 i helpu i egluro hyn yn well. Mae'r Cyngor yn bwriadu cynnwys Cynghorau Tref a Chymuned yn y Cam Safleoedd Ymgeisiol (fel ar gyfer yr LDP cyfredol) a hefyd yn y gwaith Asesu Aneddiadau, gan edrych ar rôl a phwrpas pob Tref a Phentref. Anogir Cynghorwyr Sir i gyfrannu'n rheolaidd drwy weithdai a chyfarfodydd rhanddeiliaid, a thrwy broses wleidyddol Gweithgor yr LDP a chyfarfodydd y Cabinet / Cyngor Llawn.<br><br>Cytunwn â'ch sylwadau bod y broses leol o 'greu lle' e.e. drwy Gynlluniau Pentref, yn bwysig i oleuo cynnwys y Cynllun Datblygu Lleol ac yn cydnabod pa mor bwysig yw gweithio gyda'r Gymuned Leol i greu consensws ar bob cyfle. |
| 16. | Ymddiriedolaeth Dolafon (PBCC) | Yn cefnogi cynnwys y CIS ac am gael fy nghynnwys fel aelod o'r *Plymouth Brethren Christian Church*, sydd heb ei gynnwys yn y rhestr ar hyn o bryd. Hoffwn hefyd gael fy nghynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad. | Nodir y sylwadau hyn. Dylid nodi bod y Cyngor yn adolygu'r rhestr o Gyrff Ymgynghori yn Atodiad 1 y Cytundeb Darparu i greu adran fwy manwl. Bydd hyn yn bosib wrth i ddata-bas yr RLDP newydd ddatblygu. Mae'r Cyngor hefyd yn edrych |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Rwy'n synnu nad yw elusen *Rapid Relief Team* Powys neu'r PBCC wedi eu cynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad (anodd eu cyrraedd, ayyb). | ar y rhestr Grwpiau Anodd eu Cyrraedd. Bydd y manylion hyn ar gael yn y Cytundeb Darparu terfynol.<br><br>Bydd y rhestr yn cynnwys *Plymouth Brethren Christian Church* fel Corff Ymgynghori Cyffredinol (cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau crefyddol ym Mhowys). Diolch hefyd am adnabod y *Rapid Relief Team* ar gyfer ein cofnodion.<br><br>Dylid hefyd nodi ein bod yn cynnwys PAVO, sydd hefyd â system ymgynghori i gyrraedd mudiadau gwirfoddol. |
| 17. | Unigolyn | Noda sylwadau'r Unigolyn fod y DDA yn rhoi trosolwg da ar broblemau a chyfyngiadau amser ac y dylai Cynaliadwyedd a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fod yn ystyriaeth gyntaf. Rhaid i unrhyw bolisïau gwallus gael eu cywiro'n syth, nid eu gadael tan yr adolygiad nesaf. Rhaid adolygu'r Cyngor Cynllunio Atodol gyda hyn mewn cof.<br><br>Yn tynnu sylw bod Cynghorau Tref a Chymuned, a'u corff ymbarél Un Llais Cymru, wedi eu nodi fel bod yn bwysig ond heb eu cynnwys yn y rhestr o randdeiliaid a chyrff ymgynghori.<br><br>Cefnogi egwyddorion Gunning (3.8) a bod angen glynu atynt. Yn cwestiynu pam na sonnir am y rhan y dylai Cynghorau Tref a Chymuned (3.15) ei chwarae.<br><br>Atodiad 1: Y Rhestr Rhanddeiliaid Mae Powys yn falch o gynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd, ond ble y rhestrir y Cynghorau Tref a Chymuned? Nhw yw'r haen gyntaf mewn llywodraeth ddemocrataidd ac yn etholedig ac nid yn wirfoddolwyr. Mae ganddynt hawl bod ymhlith y cyntaf i fod yn rhan o'r broses ymgynghori ac mae gan | Nodir y sylwadau. Dylid nodi bod Cynghorau Tref a Chymuned ym Mhowys (ac mewn ardaloedd cyfagos) wedi eu cynnwys yn yr adran ar Gyrff Ymgynghori Penodol (Atodiad 1) a byddwn yn eu cynnwys mewn paratoi'r Cynllun. Rydym nawr wedi ychwanegu at baragraff 3.15 i geisio ateb eich pryderon ac egluro hyn yn well.<br><br>Mae'r adran ar dudalen 30 yn trafod rôl Cynghorau Tref a Chymuned ac mae'r CIS yn egluro pa rôl fydd ganddynt yn y broses fel Cyrff Ymgynghori Penodol. Mae'r Cyngor yn bwriadu cynnwys Cynghorau Tref a Chymuned yn y Cam Safleoedd Ymgeisiol (fel ar gyfer yr LDP cyfredol) a hefyd yn y gwaith Asesu Aneddiadau, gan edrych ar rôl a phwrpas pob Tref a Phentref. Bydd y Cyngor yn ceisio cynnwys Cynghorau Tref a Chymuned mor gynnar â phosib yn y camau ymgynghori, o fewn cyfyngiadau'r Amserlen gaeth fydd wedi'i chytuno gan Lywodraeth Cymru. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | eu corff ymbarél, Un Llais Cymru, fewnbwn i'w gyfrannu hefyd. | Fel y noda'r Unigolyn, mae'r Cytundeb Darparu'n cyfeirio at Un Llais Cymru ond nid yw wedi'i restru fel Rhanddeiliad. Dylid nodi bod y Cyngor yn adolygu'r rhestr o Gyrff Ymgynghori yn Atodiad 1 y Cytundeb Darparu i greu adran fwy manwl. Bydd hyn yn bosib wrth i ddata-bas yr RLDP newydd ddatblygu. Mae'r Cyngor hefyd yn edrych ar y rhestr Grwpiau Anodd eu Cyrraedd. Bydd y manylion hyn ar gael yn y Cytundeb Darparu terfynol. |
| 18. | Clwyd Alyn Housing Ltd | Mae Clwyd Alyn Housing Limited (CAHL) yn un o brif ddarparwyr tai fforddiadwy a thai cymdeithasol eraill yn y Sir. Nid yw CAHL yn diystyru o gwbl pa mor anodd yw darparu tai ar draws Cymru a'r Sir.<br><br>Fel un o bartneriaid y Cyngor, mae CAHL o blaid yr egwyddor o adolygu'r LDP yn gynnar er mwyn adolygu sut a ble y dylid lleoli tai i gwrdd ag anghenion tai'r Sir a dyheadau Llywodraeth Cymru am ddarparu aneddiadau a thai cynaliadwy a chwrdd ag anghenion poblogaeth y Sir.<br><br>Mae CAHL yn cefnogi'r dyheadau fel rhan o amserlen heriol. Fodd bynnag, mae'n bryderus bod yr amserlen yn rhy optimistaidd o ran y dystiolaeth sydd angen ei chasglu o ystyried materion fel adferiad y wlad o bandemig Covid, bod TAN15 wedi'i ohirio'n ddiweddar a'r cyngor ar SFCA a safiad NRW ar Ffosffadau. | Bydd tai unwaith eto'n bwnc allweddol i'r RLDP ac mae'r Cyngor yn edrych ymlaen at weithio gyda rhanddeiliaid perthnasol.<br><br>Nodir y sylwadau hyn. Dylid nodi bod yr amserlen yn cydymffurfio ag amserlen gymeradwy'r Llywodraeth o 3.5 blynedd ar gyfer paratoi'r LDP ac yn sicrhau nad oes unrhyw fwlch yn nosbarthiad daearyddol y cynllun. Mae hefyd yn cynnwys camau a lywodraethir yn llym gan Reoliadau, gyda chyfnodau a gofynion ymgynghori na ellir eu newid.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd angen casglu tystiolaeth sylweddol a hefyd bod nifer o faterion strategol manwl sydd angen sylw ac sydd, hyd yma, â nifer o agweddau anhysbys yn perthyn iddynt. Er hynny, mae'r RLDP yn adeiladu ar yr LDP cyfredol gan ddysgu o argymhellion a wneir yn yr Adroddiad(au) Monitro Blynyddol a'r Adroddiad Adolygu, sy'n fan cychwyn da. Ni chynigir gwneud unrhyw newid i'r Cytundeb Darparu. |
| 19. | Cyfoeth Naturiol Cymru | Yn nodi'r amserlen arfaethedig ar gyfer paratoi'r cynllun sy'n gadael dim ond mis wrth gefn cyn i'r LDP cyfredol ddod i ben. | Nodir a gwerthfawrogir y cymorth a gynigir gan NRW. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn parhau i ymgysylltu'n |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Yn croesawu cynnwys yr Asesiad Risg sy'n tynnu sylw at risgiau posib a fyddai'n achosi oedi i'r broses ac i waith ychwanegol.<br>Gall NRW ddarparu cymorth a chynnig cyngor i'r Cyngor yn ystod amrywiol gamau'r broses o baratoi a mabwysiadu'r RLDP a gallai hefyd gynnig ymgysylltu ym mhroses y cynllun a fyddai'n ychwanegol i'n dyletswyddau statudol.<br>Yn pwysleisio eu hymrwymiad i ymgysylltu â'r Cyngor yn ystod y broses o baratoi'r RLDP ac i weithio mewn partneriaeth i helpu i lunio a darparu polisi er mwyn gwarchod a gwella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau gan felly ategu lles diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd Powys ar gyfer y dyfodol. | agos â NRW wrth ddatblygu'r RLDP.  Ni chynigir gwneud unrhyw newid i'r Cytundeb Darparu yn y cyswllt hwn. |

## Atodiad 5.  Llythyr Cytundeb gan Lywodraeth Cymru

Gweler y dudalen olaf atodedig.

**Prif Gynllunydd, Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**
**Chief Planner, Planning Directorate**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: qA1495798

Dr Adrian Humpage
Prif Swyddog Cynllunio – Polisi Cynllunio
Cyngor Sir Powys
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

15 Gorffennaf 2024

Annwyl Adrian,

**Cyngor Sir Powys: Cynllun Newydd Cyntaf y Cytundeb Cyflawni Diwygiedig**

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd)**

Diolch am eich e-bost ar 12 Gorffennaf yn gofyn am gymeradwyaeth i'ch Cytundeb Cyflawni (DA) diwygiedig ar gyfer eich Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd. Daw'r cais Cytundeb Cyflawni hwn o ganlyniad i'ch awdurdod yn mynd y tu hwnt i'r llithriant y cytunwyd arno ym mhroses paratoi'r cynllun, fel y nodir yn y Cytundeb Cyflawni cychwynnol, ar gyfer cynllun newydd sy'n cwmpasu'r cyfnod 2022-2037.

Mae paratoi Cynllun Datblygu Lleol yn ddyletswydd statudol ar bob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru. Mae bod â chynllun datblygu cyfredol ar waith yn sail i'r holl system gynllunio yng Nghymru ac mae'n ategu ymrwymiad y Llywodraeth i ddatblygu a arweinir gan gynlluniau. Mae rheoli prosiectau yn effeithiol a thystiolaeth gyfredol yn hanfodol er mwyn sicrhau y gellir paratoi'r cynllun yn unol â'r amserlenni a nodir yn Nhabl 1 (paragraff 2.1) ac Atodiad 2 y Cytundeb Cyflawni diwygiedig. Mae'r amserlen a nodir yn y Cytundeb Cyflawni diwygiedig yn cyd-fynd â'r gofynion yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3), gan gydnabod bod gan eich awdurdod gynllun a fabwysiadwyd ar waith eisoes wedi'i ategu gan nifer o ddogfennau tystiolaeth.

Prawf cadernid y bydd y cynllun yn cael ei ystyried yn ei erbyn wrth iddo gael ei archwilio yw a yw'n cydymffurfio â'r Cytundeb Cyflawni y cytunwyd arno, gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau (CIS). Bydd angen i'r cynllun hefyd ddangos 'cydymffurfiaeth gyffredinol' â Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040.



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymrwymiad a ddangoswyd gan Gyngor Sir Powys i baratoi eich cynllun newydd. Mae eich Cytundeb Cyflawni diwygiedig a gyflwynwyd yn cynnwys dadansoddiad manwl o amseriadau pob cam y Cynllun Datblygu Lleol (yn Atodiad 2) gyda dyddiad mabwysiadu dangosol o fis Medi 2027.

Ar ôl ystyried y Cytundeb Cyflawni yr ydych wedi'i gyflwyno, gallaf **gadarnhau ein bod yn cytuno** i'r amserlen a nodir yn Nhabl 1 fel y darperir ar ei chyfer gan Adran 63(4) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliad 9 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd).

Dylech nawr wneud yn siŵr bod y fersiwn gyhoeddedig o'ch Cytundeb Cyflawni ar gael i'r cyhoedd yn unol â'r gofynion a nodir yn Rheoliad 10.

Yn gywir,



**Neil Hemington**
**Prif Gynllunydd**
**Chief Planner**